



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Iau 8 Tachwedd 2001

Thursday 8 November 2001

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog Gweithredol a'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
Questions to the Acting Deputy First Minister and Minister for Culture, Sport and the Welsh Language
- 13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural Affairs
- 23 Cwestiynau i'r Trefnydd
Questions to the Minister for Assembly Business
- 34 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 48 Cymeradwyo'r Gorchymyn ar y cyd, the Plant Breeders Rights (Fees) (Amendment) Regulations 2001
Approval of the Joint Order, the Plant Breeders Rights (Fees) (Amendment) Regulations 2001
- 49 Cymeradwyo Chwech o Reoliadau Marchnata Hadau
Approval of Six Seed Marketing Regulations
- 65 Cymeradwyo Dau Adroddiad Grant Arbennig am Gymorth Ariannol i Fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan Glwy'r Traed a'r Genau
Approval of Two Special Grant Reports for Financial Assistance to Businesses affected by Foot and Mouth Disease
- 77 Cymeradwyo'r Strategaeth Coetir
Approval of the Woodlands Strategy
- 101 Dadl Fer: Bywyd yn y Cylch Arwerthu: Pam mae Arwerthiannau Da Byw yn Bwysig)
Short Debate: Life in the Ring: Why Livestock Auctions Matter)

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 9.05 a.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 9.05 a.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

**Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog Gweithredol a'r Gweinidog dros
Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
Questions to the Acting Deputy First Minister and Minister for Culture, Sport
and the Welsh Language**

**Annog Oedolion i Wneud Ymarfer Corff
Encouraging Adult Participation in Physical Exercise**

C1 Owen John Thomas: Pa gynlluniau sydd gennych i annog mwy o oedolion o ardaloedd llai breintiedig i wneud ymarfer corff? (OAQ13733)

Q1 Owen John Thomas: What are your plans to attract more adults from less privileged areas to participate in physical exercise? (OAQ13733) [W]

The Minister for Culture, Sport and Welsh Language (Jenny Randerson): Increasing participation in sport for all ages, in all areas, is an integral part of the Assembly's 'Plan for Wales 2001'. The main thrust of the Sports Council for Wales's strategy is to target participation, with special emphasis on participation by young people, women and girls.

Y Gweinidog ar gyfer Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg (Jenny Randerson): Mae cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon i bobl o bob oed, ym mhob ardal, yn rhan annatod o 'Cynllun i Gymru 2001' y Cynulliad. Prif hanfod strategaeth Cyngor Chwaraeon Cymru yw targedu cyfranogiad, gyda phwyslais arbennig ar gyfranogiad gan bobl ifanc, menywod a merched.

We have already begun to facilitate a major drive to increase participation rates among adults. The additional £650,000 I announced earlier this week for the sports council in 2002-03 will contribute to the drive to increase participation across Wales, including in golf. Through the sports council's social inclusion in sport forum, the Assembly is set to ensure that the opportunities to partake in physical exercise are available to everyone in Wales, regardless of social or economic background.

Yr ydym eisoes wedi dechrau hwyluso ymgyrch sylweddol i gynyddu cyfraddau cyfranogi ymysg oedolion. Bydd y £650,000 ychwanegol y cyhoeddais yn gynharach yr wythnos hon ar gyfer y cyngor chwaraeon yn 2002-03 yn cyfrannu at yr ymgyrch i gynyddu cyfranogiad ledled Cymru, gan gynnwys golff. Drwy fforwm cynhwysedd cymdeithasol mewn chwaraeon y cyngor chwaraeon, mae'r Cynulliad yn barod i sicrhau bod y cyfleoedd i gyfranogi mewn ymarfer corff ar gael i bawb yng Nghymru, waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol neu economaidd.

Owen John Thomas: A gytunwch fod yr arfer o fod yn aelod i glwb cadw'n heini yn gyfyngedig, i raddau helaeth, i'r dosbarth canol, yn bennaf oherwydd y gost? Mae llawer o'n cymunedau tlotaf yn dioddef yn sgîl afiechydon a diffyg gwybodaeth am fyw'n iach. Onid oes dyletswydd ar y Llywodraeth i sicrhau bod adnoddau ymarfer corff ar gael ym mhob man ac am bris rhesymol, ac yr anogir pobl i'w defnyddio?

Owen John Thomas: Do you agree that membership of keep fit clubs is restricted to the middle classes to a great extent, primarily because of the cost? Many of our poorest communities suffer as a result of ill-health and a lack of information about healthy living. Is it not the Government's duty to ensure that physical exercise resources are available everywhere at a reasonable cost and that people are encouraged to use them?

Jenny Randerson: It is part of my duty to

Jenny Randerson: Mae'n rhan o'm

ensure that there are sports facilities and information on sport available everywhere. The social inclusion in sports forum, which was established in December 1999, has in the last 18 months ploughed £1.2 million into Wales's most socially deprived areas. Another £4 million is in the pipeline and, in addition to that, £48 million is available through the new opportunities fund, which will go to areas that have poor facilities and where there is social need. I hope that money will be spent, not only on schools, but also on schools opening up their facilities to communities.

Tom Middlehurst: Do you agree that the provision of accessible and good-quality sport and recreational facilities is important for people of all ages, particularly the elderly? I declare an interest in that respect. Do you also agree that this sits well in the context of the older people strategy that Jane Hutt announced on Tuesday? I would have asked Jane Hutt this question then, had I been allowed to do so.

Jenny Randerson: I agree. We rightly put much emphasis on young people because a healthy lifestyle sets the tone for their future. However, it is important that we do not forget older people. An advantage of the Sports Council for Wales's emphasis on the inclusion of women and girls in sport is that women are disproportionately represented among older people—there are more women than men in the older age groups. Therefore, that initiative will have an impact on older people. I am mindful of the health impact of a healthy sporting life on older people and of its advantages. I will bear that in mind in making decisions.

dyletswydd i sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon a gwybodaeth ar chwaraeon ar gael ymhobman. Mae'r fforwm cynhwysedd cymdeithasol mewn chwaraeon, a sefydlwyd yn Rhagfyr 1999, wedi rhoi £1.2 miliwn yn y 18 mis diwethaf i ardaloedd mwyaf cymdeithasol ddifreintiedig Cymru. Mae £4 miliwn pellach ar y ffordd ac, yn ogystal â hynny, mae £48 miliwn ar gael drwy'r gronfa cyfleoedd newydd, a fydd yn mynd i ardaloedd sydd â chyfleusterau gwael a lle mae angen cymdeithasol. Gobeithiaf y gwerir arian, nid yn unig ar ysgolion, ond hefyd ar ysgolion sy'n agor eu cyfleusterau i gymunedau.

Tom Middlehurst: A gytunwch fod darparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden y gellir cael mynediad iddynt ac sydd o ansawdd da yn bwysig i bobl o bob oed, yn enwedig yr henoed? Datganaf fuddiant yn yr ystyr hwnnw. A gytunwch hefyd fod hyn yn addas yng nghyd-destun y strategaeth pobl hŷn a gyhoeddwyd gan Jane Hutt ddydd Mawrth? Buaswn wedi gofyn y cwestiwn hwn i Jane Hutt bryd hynny, pe bawn i wedi cael gwneud hynny.

Jenny Randerson: Cytunaf. Yr ydym yn gywir yn rhoi llawer o bwyslais ar bobl ifanc oherwydd bod ffordd o fyw iach yn gosod sylfaen ar gyfer eu dyfodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad ydym yn anghofio pobl hŷn. Un o fanteision pwyslais Cyngor Chwaraeon Cymru ar gynnwys menywod a merched mewn chwaraeon yw bod menywod wedi eu cynrychioli yn anghyfartal ymysg pobl hŷn—mae mwy o fenywod na dynion yn y grwpiau oedran hŷn. O ganlyniad, caiff y fenter honno effaith ar bobl hŷn. Yr wyf yn ymwybodol o effaith bywyd chwaraeon iach ar iechyd pobl hŷn ac o'i fanteision. Byddaf yn cadw hynny mewn cof wrth wneud penderfyniadau.

Hybu Traddodiadau Diwylliannol Amrywiol Cymru Promotion of the Diverse Cultural Traditions in Wales

Q2 Brian Gibbons: What plans does the Minister have to promote the many diverse cultural traditions that are an integral part of modern Wales? (OAQ13742)

C2 Brian Gibbons: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hybu'r llu o draddodiadau diwylliannol amrywiol sy'n rhan hanfodol o'r Gymru fodern? (OAQ13742)

Jenny Randerson: I was pleased to launch

Jenny Randerson: Yr oedd yn bleser gennyf

the Arts Council of Wales's cultural diversity strategy in May this year. That strategy aims to promote equality of access to a wide range of arts events for people of all cultures and communities. The arts council is committed to implementing the targets contained in the strategy, and the proposed increase in its budget will enable it to run a scheme to fund projects to celebrate the Year of Cultural Diversity in 2002. My culture strategy, which I will present to the Culture Committee on 21 November, also promotes cultural diversity and sets targets to help achieve it.

lansio strategaeth amrywiaeth ddiwylliannol Cyngor Celfyddydau Cymru ym Mai eleni. Mae'r strategaeth honno yn anelu at hyrwyddo cydraddoldeb mynediad i ystod eang o ddigwyddiadau celfyddydol ar gyfer pobl o bob diwylliant a chymuned. Mae cyngor y celfyddydau yn ymrwymedig i weithredu'r targedau yn y strategaeth, a bydd y cynnydd arfaethedig yn ei gyllideb yn ei alluogi i redeg cynllun i ariannu prosiectau i ddathlu'r Flwyddyn o Amrywiaeth Ddiwylliannol yn 2002. Bydd y strategaeth ddiwylliannol a gyflwynaf i'r Pwyllgor Diwylliant ar 21 Tachwedd hefyd yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac yn gosod targedau i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni hynny.

Brian Gibbons: I am pleased to hear of that list of planned activities. Do you agree that this celebration of diversity in Wales reflects the true new national identity of Wales, rather than the monocultural totalitarianism that is being promoted in some circles, which will exclude three-quarters of the people who live in Wales?

Brian Gibbons: Mae'n dda gennyf glywed am y rhestr honno o weithgareddau sydd wedi eu cynllunio. A gytunwch fod y dathliad hwn o amrywiaeth yng Nghymru yn adlewyrchu gwir hunaniaeth genedlaethol newydd Cymru, yn hytrach na'r dotalitariaeth unddiwylliant sydd yn cael ei hyrwyddo mewn rhai cylchoedd, na fydd yn cynnwys tri chwarter y bobl sy'n byw yng Nghymru?

Jenny Randerson: It is important that efforts to support and develop the Welsh language do not lead to any group feeling that it is excluded. You may find it helpful to discuss with me, or with other members of the Culture Committee, the emphasis placed on this by the Commission for Racial Equality yesterday, when it presented interesting evidence. It presented thoughtful ideas on developments for the future, which were useful to us all.

Jenny Randerson: Mae'n bwysig nad yw'r ymdrechion i gynnal a datblygu'r iaith Gymraeg yn arwain at sefyllfa lle bydd unrhyw grŵp yn teimlo ei fod yn cael ei eithrio. Efallai y bydd yn ddefnyddiol ichi drafod â mi, neu ag aelodau eraill o'r Pwyllgor Diwylliant, y pwyslais a osodwyd ar hyn gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ddoe, pan gyflwynodd dystiolaeth ddiddorol. Cyflwynodd syniadau diddorol ar ddatblygiadau ar gyfer y dyfodol, a oedd yn ddefnyddiol inni i gyd.

Glyn Davies: I agree with what you say, but it is true that much traditional Welsh culture revolves around the Welsh language. Will you join me in applauding the cross-party approach that exists in the Chamber towards promoting the Welsh language, and recognise the role that recent Conservative Governments, and Lord Roberts of Conwy in particular, played in the progress and achievements of the language in recent years?

Glyn Davies: Cytunaf â'r hyn a ddywedwch, ond mae'n wir bod llawer o ddiwylliant traddodiadol Gymreig yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. A wnewch chi ymuno â mi wrth gymeradwyo'r ymagwedd drawsbleidiol sy'n bodoli yn y Siambr tuag at hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a chydabod y rôl y mae Llywodraethau Ceidwadol diweddar, a'r Arglwydd Roberts o Gonwy yn benodol, wedi ei chwarae yng nghynnydd a gorchestion yr iaith yn y blynyddoedd diwethaf?

9:10 a.m.

Jenny Randerson: I value the cross-party consensus in the Chamber on Welsh language issues. It is important that occasional statements made outside the Assembly, on both sides of the argument, do not fracture that consensus. I did not agree with much that the Conservative Government did in Wales over almost 20 years, but I am happy to acknowledge that the Welsh Language Act 1993 and the introduction of Welsh being taught compulsorily in schools up to the age of 16 were two genuine contributions.

Jenny Randerson: Gwerthfawrogaf y consensws trawsbleidiol yn y Siambr ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae'n bwysig nad yw datganiadau a wneir o bryd i'w gilydd y tu allan i'r Cynulliad, ar ddwy ochr y ddadl, yn niweidio'r consensws hwnnw. Nid oeddwn yn cytuno â llawer o'r hyn a wnaethpwyd gan y Llywodraeth Geidwadol yng Nghymru ystod bron i 20 mlynedd, ond yr wyf yn fodlon cydnabod bod Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chyflwyno dysgu'r Gymraeg yn orfodol mewn ysgolion hyd at 16 oed yn ddau gyfraniad gwirioneddol.

Effaith Polisi Mynediad am Ddim i Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru Effect of Free Admission to the National Museums and Galleries of Wales

Q3 William Graham: Will the Minister outline discussions she has held with representatives of privately owned tourist attractions or museums on the effect of the free admission policy for National Museums and Galleries of Wales? (OAQ13756)

C3 William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau a gafodd gyda chynrychiolwyr perchnogion atyniadau twristaidd neu amgueddfeydd preifat ynghylch effaith y polisi mynediad am ddim i Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru? (OAQ13756)

Jenny Randerson: I have not met representatives of privately owned attractions or museums, but I met the south-east Wales economic forum on 8 August and we discussed the impact of free entry at the National Museums and Galleries of Wales and the difficulty of quantifying its effects in the light of the foot and mouth disease epidemic.

Jenny Randerson: Nid wyf wedi cyfarfod â chynrychiolwyr perchnogion atyniadau twristaidd neu amgueddfeydd preifat, ond cyfarfûm â fforwm economaidd y Ddedwyrain ar 8 Awst a thrafodasom effaith mynediad am ddim i Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru a'r anhawster o ran mesur ei effeithiau yn dilyn argyfwng clwy'r traed a'r genau.

William Graham: Will you now meet representatives of privately owned tourist attractions to ensure that you can offer, where necessary, appropriate advice and help to ensure that they do not suffer further from what could be described as, in rural communities, a continuing crisis?

William Graham: A wnewch chi yn awr gyfarfod cynrychiolwyr atyniadau twristaidd preifat i sicrhau y gallwch, lle y bo'n briodol, gynnig cyngor a chymorth priodol i sicrhau nad ydynt yn dioddef ymhellach o'r hyn y gellid ei ddisgrifio, mewn cymunedau cefn gwlad, fel argyfwng parhaus?

Jenny Randerson: I am happy to consider meeting them, but the national museum has met many representatives, and has formed useful partnerships with several private attractions and museums. That offers mutual benefits in terms of joint advertising, marketing and so on. As the position becomes clearer and as the foot and mouth disease epidemic, hopefully, recedes into the past, there is a great deal to be gained from

Jenny Randerson: Yr wyf yn hapus i ystyried cyfarfod â hwy, ond mae'r amgueddfa genedlaethol wedi cyfarfod â llawer o gynrychiolwyr, ac wedi ffurfio partneriaethau defnyddiol â sawl atyniad ac amgueddfa breifat. Mae hynny yn cynnig buddiannau ar bob ochr o ran hysbysebu ar y cyd, marchnata ac ati. Wrth i'r sefyllfa ddod yn gliriach a, gobeithio, wrth i argyfwng clwy'r traed a'r genau ddiflannu i'r

reconsidering the situation.

gorffennol, bydd llawer i'w ennill o ailystyried y sefyllfa.

Eleanor Burnham: A oes ffigurau ar gael ar nifer yr ymwelwyr ag amgueddfeydd gogledd Cymru, er enghraifft Amgueddfa Llechi Cymru yn Llanberis neu gaer Rufeinig Segontium?

Eleanor Burnham: Are figures available on the number of visitors to museums in north Wales, for example the Welsh Slate Museum in Llanberis or the Roman fort at Segontium?

Jenny Randerson: Yes. I am pleased to inform you that the overall picture in north Wales in terms of the national museum's branches is good. At Segontium, visitor numbers have increased by around a third, and at the Welsh Slate Museum visitors have increased by a staggering 120 per cent. That is important given that both are in the middle of an area that has been affected badly by foot and mouth disease. Overall, visitors to the museums have almost doubled. A few weeks ago, I welcomed the millionth visitor, since 1 April this year, to the national museum's sites in Wales.

Jenny Randerson: Oes. Yr wyf yn falch o ddweud wrthyfch bod y darlun cyffredinol yn y Gogledd o ran canghennau'r amgueddfa genedlaethol yn dda. Yn Segontium, mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu tua thraean, ac, yn yr Amgueddfa Lechi, mae ymwelwyr wedi cynyddu 120 y cant, sydd yn syfrdanol. Mae hynny yn bwysig o ystyried bod y ddwy amgueddfa yng nghanol ardal a effeithiwyd yn wael gan glwy'r traed a'r genau. Ar y cyfan, mae ymwelwyr i'r amgueddfeydd bron wedi dyblu. Rai wythnosau yn ôl, rhoddais groeso i'r miliynfed ymwelydd, ers 1 Ebrill eleni, i safleoedd yr amgueddfa genedlaethol yng Nghymru.

Dafydd Wigley: Croesawaf y cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld â'r amgueddfeydd hyn yn sgîl cyflwyno polisi mynediad am ddim. Gobeithiaf y bydd y polisi hwnnw'n helpu amgueddfeydd bach preifat. Bu ichi sôn am Segontium. Gan fod pwysau o du'r Amgueddfa Genedlaethol iddo gael ei redeg gan ymddiriedolaeth leol yng Nghaernarfon yn hytrach nag yn uniongyrchol ganddi hi, a wnewch chi sicrhau bod yr Amgueddfa Genedlaethol yn trosglwyddo cyllid digonol i warchod y sefyllfa honno am rai blynnyddoedd er mwyn sicrhau bod y prosiect yn tyfu ar seiliau cadarn?

Dafydd Wigley: I welcome the increase in the numbers visiting these museums following the introduction of the free admission policy. I hope that that policy will assist small private museums. You mentioned Segontium. Given that there is pressure from the National Museum for it to be run by a local trust in Caernarfon rather than directly by the National Museum, will you ensure that it transfers adequate funding to safeguard that situation for some years in order to ensure that the project develops on firm foundations?

Jenny Randerson: Having visited Segontium, I am aware of what a jewel it is and I assure you that any future plans will bear in mind its long-term viability and importance to the area. We will go forward on the basis of development rather than retraction.

Jenny Randerson: Ar ôl ymweld â Segontium, gwn ei bod yn em gwerthfawr a gallaf eich sicrhau y bydd unrhyw gynlluniau yn y dyfodol yn ystyried ei hyfywedd a'i bwysigrwydd hirdymor i'r ardal. Awn ymlaen ar sail datblygu yn hytrach na gwrthdynu.

Proffil Diwylliannol Canol De Cymru Cultural Profile of South Wales Central

Q4 Jonathan Morgan: What progress has been made in promoting and enhancing South Wales Central's cultural profile? (OAQ13738)

C4 Jonathan Morgan: Pa gynnydd sydd wedi ei wneud o ran hybu a gwella proffil diwylliannol Canol De Cymru? (OAQ13738)

Jenny Randerson: The Assembly is supporting the development of the Wales Millennium Centre, and Cardiff City and County Council's bid for European Capital of Culture status in 2008. Over £4 million was paid out in arts council grants to the South Wales Central area last year.

Jonathan Morgan: The Capital of Culture 2008 bid will offer a tremendous opportunity for Cardiff and Wales to promote its wide range of talented artists, actors, poets and musicians. We have some of the finest artists of anywhere in the world and we export a great number of these people around the world to promote Wales. However, an integral part of the strategy to gain the Capital of Culture bid must be the construction of the Wales Millennium Centre. Can the Minister indicate when she will be able to make a statement to update Members on the progress of this great project?

Jenny Randerson: You will be aware that this is a commercially sensitive issue at present. I can, however, report to Members—as I did a few weeks ago during oral questions—that discussions are proceeding. I hope that they will reach a conclusion in the relatively near future, and I expect to be able to give a report to this Chamber before Christmas.

Peter Law: Does the Minister accept that there are many people throughout Wales who do not agree that another £25 million of public money should be pumped into the Wales Millennium Centre project? It is disgraceful, bearing in mind the exclusion and deprivation that exists in many parts of Wales. Will she give us the chance to have a democratic vote in the Chamber on whether we put that money into this development?

Jenny Randerson: You said that last time, and my answer is roughly the same as it was then. I had intended to hold a vote on this at the crucial time but, regretfully, that opportunity was not available because of the sad death of Val Feld. Events have moved on since then. However, you have my commitment that arts funding will be spread throughout Wales and, as a result of several

Jenny Randerson: Mae'r Cynulliad yn cefnogi datblygiad Canolfan Mileniwm Cymru, a chais Dinas a Sir Caerdydd am statws Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Talwyd dros £4 miliwn mewn grantiau gan y cyngor celfyddydau i ardal Canol De Cymru y llynedd.

Jonathan Morgan: Bydd cais Prifddinas Diwylliant 2008 yn rhoi cyfle gwych i Gaerdydd a Chymru hyrwyddo eu hamrywiaeth eang o artistiaid, actorion, beirdd a cherddorion talentog. Mae gennym rai o artistiaid gorau'r byd ac yr ydym yn allforio nifer fawr o'r bobl hyn ledled y byd i hyrwyddo Cymru. Fodd bynnag, rhan allweddol o'r strategaeth i lwyddo yn y cais am Brifddinas Diwylliant fydd adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru. A all y Gweinidog ddweud pryd y bydd yn gallu gwneud datganiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd y prosiect arbennig hwn?

Jenny Randerson: Fe wyddoch bod hwn yn fater masnachol sensitif ar hyn o bryd. Gallaf, fodd bynnag, ddweud wrth yr Aelodau—fel y gwneuthum rhai wythnosau yn ôl yn ystod cwestiynau llafar—bod trafodaethau yn mynd yn eu blaen. Gobeithiaf y byddant yn dod i gasgliad yn y dyfodol gweddol agos, a disgwyliaf allu rhoi adroddiad i'r Siambr hon cyn y Nadolig.

Peter Law: A yw'r Gweinidog yn derbyn bod llawer o bobl ledled Cymru nad ydynt yn cytuno y dylid rhoi £25 miliwn arall o arian cyhoeddus i brosiect Canolfan Mileniwm Cymru? Mae'n warthus, o ystyried yr allgáu a'r amddifadedd sy'n bodoli mewn sawl rhan o Gymru. A rydd gyfle inni gael pleidlais ddemocrataidd yn y Siambr ar y cynnig i fuddsoddi'r arian hwnnw yn y datblygiad hwn?

Jenny Randerson: Dywedasoeh hynny y tro diwethaf, ac mae fy ateb yn fras yr un peth ag yr oedd bryd hynny. Yr oeddwn wedi bwriadu cynnal pleidlais ar hyn ar yr adeg dyngedfennol ond, yn anffodus nid oedd y cyfle hwnnw ar gael oherwydd marwolaeth drist Val Feld. Mae digwyddiadau wedi symud yn eu blaen ers hynny. Fodd bynnag, yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau y bydd arian

initiatives, there is a strong flow of money, particularly from the Arts Council of Wales, throughout the Valleys. For example, in the year 2000-01, £1.7 million was spent in the Valleys by the arts council. Therefore, there is an ongoing programme throughout Wales.

Geraint Davies: When visiting the Irish Republic, one is struck by the way Irish culture is promoted in the pubs of that country. In Wales, however, we tend to get Anglo and American culture within our public houses. What plans do you have to promote Welsh culture, in both languages, in the pubs of Wales?

Jenny Randerson: I had better be careful in answering this, as it could incriminate me, and I could be accused of being on one long binge. I have, however, had informal discussions, off the record, and totally by chance, with a brewery that has that sort of plan. I found that interesting, and it is an aspect of culture that could be developed. I pointed the brewery concerned—which I cannot mention here, but I will tell you later—towards the Wales Tourist Board, because funding could be available to help its plans.

Cyfranogiad Cyfartal Mewn Prosiectau a Pholisïau yn ymwneud â Diwylliant Cymru a'r Iaith Gymraeg **Equal Participation in Welsh Cultural and Welsh Language Projects and Policies**

Q5 Alun Cairns: How does the Minister secure equal participation in Welsh cultural and Welsh language projects and policies? (OAQ13758)

Jenny Randerson: Assembly sponsored public bodies, such as the Arts Council of Wales and the Welsh Language Board, must comply with management statements. These state that their functions should be exercised with due regard to the principles of equality of opportunity for all people, and the equal treatment of the Welsh and English languages.

Alun Cairns: You will be aware of plans by Swansea City and County Council to

ar gyfer y celfyddydau yn cael ei daenu i bob cwr o Gymru ac, o ganlyniad i sawl menter, mae llif cryf o arian, yn enwedig o Gyngor Celfyddydau Cymru, ledled y Cymoedd. Er enghraifft, yn 2000-01, gwariodd y cyngor celfyddydau £1.7 miliwn yn y Cymoedd. O ganlyniad, mae rhaglen barhaus ledled Cymru.

Geraint Davies: Wrth ymweld â Gweriniaeth Iwerddon, cawn ein taro gan y ffordd yr hyrwyddir diwylliant Gwyddelig yn nhafarndai'r wlad honno. Fodd bynnag, yng Nghymru yr ydym yn tueddu i gael diwylliant Eingl ac Americanaidd yn ein tafarndai. Pa gynlluniau sydd gennych i hyrwyddo diwylliant Cymreig, yn y ddwy iaith, yn nhafarndai Cymru?

Jenny Randerson: Mae'n well imi fod yn ofalus wrth ateb hwn, gan y gallwn gael fy nghyhuddo o fod ar y cwrw drwy'r amser. Fodd bynnag, yr wyf wedi cael trafodaethau anffurfiol, yn answyddogol, ac ar hap yn llwyr, gyda bragdy sydd â chynllun o'r fath mewn golwg. Yr oedd hynny yn ddiddorol, ac mae'n agwedd ar ddiwylliant y gellid ei datblygu. Cyfeiriais y bragdy dan sylw—na allaf ei enwi yma, ond y byddaf yn dweud wrthyhych yn nes ymlaen—at Fwrdd Croeso Cymru, oherwydd gallai arian fod ar gael i gynorthwyo ei gynlluniau.

C5 Alun Cairns: Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau cyfranogiad cyfartal mewn prosiectau a pholisïau'n ymwneud â diwylliant Cymru, a phrosiectau a pholisïau iaith Gymraeg? (OAQ13758)

Jenny Randerson: Rhaid i gyrff cyhoeddus a noddur gan y Cynulliad, megis Cyngor Celfyddydau Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gydymffurfio â datganiadau rheoli. Mae'r rhain yn nodi y dylid rhoi sylw priodol i egwyddorion cyfle cyfartal i bawb, a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Alun Cairns: Yr ydych yn ymwybodol o gynlluniau Cyngor Dinas a Sir Abertawe i

establish a Welsh-medium secondary school at the Penlan site. In view of the mass parental objections to these plans, are you concerned that this could lead to a cultural divide in the city, with parents from the east side rejecting Welsh-medium education?

Jenny Randerson: I think that this question should not be put to me, but to the Minister for Education and Lifelong Learning. The only—

The Presiding Officer: Order. This is a question about education, but the original question refers to culture and projects relating to the Welsh language, so I do not regard the supplementary question as being out of order.

Jenny Randerson: In that case I will simply say that my policies in relation to education are made via the Education and Lifelong Learning Committee and the Minister for Education and Lifelong Learning. I suggest that you put your points and concerns to the that Committee when it discusses the review of the Welsh language.

Elin Jones: Yn dilyn eich trafferth i ateb cwestiwn Alun Cairns, a gredwch erbyn hyn fod gosod y cyfrifoldeb am y Gymraeg mewn un portffolio Cabinet, ac mewn cylch gorchwyl un Pwyllgor, yn annigonol? Oni chredwch y dylai'r Gymraeg gael ei thrin fel mater trawsbynciol yn y Cynulliad, gan nad yw'r Gymraeg yn bodoli mewn gwacter, ond yn cael ei heffeithio, er enghraifft, gan yr economi, tai, amaeth, ac addysg?

9:20 a.m.

Jenny Randerson: I agree that the Welsh language has an impact, and that Welsh language policy should have an impact, on everything we do in the Assembly. The Welsh language review has brought this to our attention. How we deal with it in terms of day-to-day management will be a matter for this Assembly at the end of that review.

sefydlu ysgol uwchradd Gymraeg ar safle Penlan. O gofio gwrthwynebiad nifer fawr o rieni i'r cynlluniau hyn a ydych yn pryderu y gallai hyn arwain at raniad diwylliannol yn y ddinas, gyda rhieni o'r dwyrain yn gwrthwynebu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg?

Jenny Randerson: Credaf na ddylai'r cwestiwn hwn gael ei ofyn i mi, ond i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Yr unig—

Y Llywydd: Trefn. Mae hwn yn gwestiwn am addysg, ond mae'r cwestiwn gwreiddiol yn cyfeirio at ddiwylliant a phrosiectau sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg, felly nid ydwyf yn ystyried bod y cwestiwn atodol hwn allan o drefn.

Jenny Randerson: Os felly dywedaf yn syml y caiff fy mholisiau ar addysg eu llunio drwy'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Awgrymaf eich bod yn cyflwyno eich pwyntiau a'ch pryderon i'r Pwyllgor hwnnw pan fydd yn trafod yr adolygiad o'r iaith Gymraeg.

Elin Jones: Following on from your difficulty in answering Alun Cairns's question, do you now think that placing responsibility for the Welsh language in one Cabinet portfolio, and within one Committee's remit, is inadequate? Do you not think that the Welsh Language should be treated as a cross-cutting issue in the Assembly, as it does not exist in a vacuum, but is affected by, for example, the economy, housing, agriculture and education?

Jenny Randerson: Cytunaf fod y Gymraeg yn cael effeithio, ac y dylai polisi'r iaith Gymraeg effeithio, ar bob peth yr ydym yn ei wneud yn y Cynulliad. Mae'r adolygiad o'r iaith Gymraeg wedi dwyn hyn i'n sylw. Bydd y ffordd yr ydym yn ymdrin â hyn yn nhermau rheoli o ddydd i ddydd yn fater i'r Cynulliad ar ddiwedd yr adolygiad hwnnw.

Cyllid ar gyfer Theatrau Cymunedol
Funding for Community-based Theatre

Q6 David Davies: Will the Minister make a statement on funding for community-based theatre? (OAQ13755)

Jenny Randerson: Community-based theatre is a mosaic of provision, which includes the Arts Council of Wales's night out scheme, youth theatre, theatre in education, amateur theatre and large scale community plays. I cannot give you a detailed answer, but I draw your attention to the night out touring scheme, which involves professional theatre companies and other performers visiting village halls or similar venues. Last year, the night out scheme enabled 150 community organisations throughout Wales to stage more than 300 performances which attracted audiences totalling almost 23,000; about £138,000 was paid in artists' fees.

David Davies: Do you share my concern that too much funding is allocated to high profile arts projects based in the capital and not nearly enough is allocated to the smaller based companies, such as Gwent Theatre's theatre in education company? Do you agree that these companies do an enormous amount of good work in bringing the arts to young people and do so on a low budget?

Jenny Randerson: I agree that those companies do a tremendous job. Much work is going on to increase the amount of community activity and there has been an excellent budget announcement, allocating an extra £2.7 million to the Arts Council of Wales next year. That is in addition to the £1.2 million increase that had already been indicated, making a total of over £20 million, which should enable further good work to be done.

Janet Ryder: What does the arts council intend to do to ensure an increase in the funding of community-based theatres, with the money that you indicated, and to ensure that it is spread throughout Wales?

Jenny Randerson: I largely answered that in

C6 David Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllid ar gyfer theatrau cymunedol? (OAQ13755)

Jenny Randerson: Mae theatrau cymunedol yn frith o ddarpariaeth, sy'n cynnwys cynllun noson allan Cyngor Celfyddydau Cymru, theatr ieuentid, theatr mewn addysg, theatr amatur a dramâu cymunedol ar raddfa fawr. Ni allaf roi ateb manwl ichi, ond tynnaf eich sylw at y cynllun noson allan ar daith, sy'n cynnwys cwmnïau theatr proffesiynol a pherfformwyr eraill sy'n ymweld â neuaddau pentref neu leoliadau tebyg. Y llynedd, bu'r cynllun noson allan yn fodd i 150 o sefydliadau cymuned ledled Cymru lwyfannu mwy na 300 o berfformiadau a ddenodd cynulleidfaoedd o bron i 23,000; talwyd tua £138,000 mewn ffioedd artistiaid.

David Davies: A rannwch fy mhryder fod gormod o arian yn cael ei ddyrannu i brosiectau celfyddydol proffil uchel yn y brifddinas ac nad oes digon o bell ffordd yn cael ei ddyrannu i gwmnïau llai, megis cwmni theatr mewn addysg Theatr Gwent? A gytunwch fod y cwmnïau hyn yn gwneud llawer o waith da wrth ddod â'r celfyddydau i bobl ifanc ac yn gwneud hynny ar gyllideb fach?

Jenny Randerson: Cytunaf fod y cwmnïau hyn yn gwneud gwaith arbennig. Gwneir llawer o waith i sicrhau bod mwy o weithgaredd cymunedol a chyhoeddwyd cyllideb arbennig yn dyrannu £2.7 miliwn ychwanegol i Gyngor Celfyddydau Cymru y flwyddyn nesaf. Mae hynny yn ychwanegol at y cynnydd o £1.2 miliwn a oedd eisoes wedi ei nodi, gan roi cyfanswm o dros £20 miliwn, a dylai hyn olygu y caiff gwaith da ei wneud.

Janet Ryder: Beth y mae cyngor y celfyddydau yn bwriadu ei wneud i sicrhau cynnydd yn yr arian a roddir i theatrau cymunedol, gyda'r arian y nodwyd gennych, ac i sicrhau ei fod yn cael ei rannu ledled Cymru?

Jenny Randerson: I raddau helaeth atebais

response to a previous question. I will give a remit letter to the Arts Council of Wales. A culture strategy will be published soon, which places great emphasis on community development. My previous answer gave details of the funding which will enable that to happen.

hyn wrth ateb cwestiwn blaenorol. Rhoddaf lythyr gorchwyl i Gyngor Celfyddydau Cymru. Caiff strategaeth ddiwylliant ei chyhoeddi cyn hir, sy'n rhoi pwyslais mawr ar ddatblygiad cymunedol. Rhoddodd fy ateb blaenorol fanylion yr arian a fydd yn galluogi hynny i ddigwydd.

Cadair Brifysgol mewn Celfyddyd Gymunedol A University Chair in Community Arts

C7 Cynog Dafis: Pa benderfyniad sydd wedi cael ei wneud ynghylch yr argymhelliad yn 'Diwylliant Cytun' i sefydlu cadair brifysgol mewn celfyddyd gymunedol? (OAQ13766)

Q7 Cynog Dafis: What decision has been made regarding the recommendation in 'A Culture in Common' to establish a university chair in community arts? (OAQ13766)

Jenny Randerson: I have been in discussion with the University of Glamorgan. I am pleased to be able to tell you that the university's directorate has agreed to proceed to the appointment of a chair in community arts. I support the university in this initiative, which is excellent news, and will discuss with it how this might be taken forward.

Jenny Randerson: Yr wyf wedi trafod â Phrifysgol Morgannwg. Yr wyf yn falch o allu dweud wrthy ch bod cyfarwyddiaeth y brifysgol wedi cytuno i fwrw ymlaen i benodi cadair mewn celfyddyd gymunedol. Cefnogaf y brifysgol yn y fenter hon, sy'n newyddion ardderchog, a byddaf yn trafod â'r Brifysgol sut y gellid datblygu hyn.

Cynog Dafis: Yr oeddwn wedi clywed awgrym y byddai'r datblygiad, efallai, yn dod o Brifysgol Morgannwg. Mae'n amlwg yn rhywbeth i'w groesawu ac mae Prifysgol Morgannwg yn lleoliad hollol briodol ar ei gyfer. A ydych yn cytuno hefyd y bydd angen i Brifysgol Morgannwg ddatblygu'r syniad hwn mewn ffordd sydd yn berthnasol i Gymru gyfan, fel bod y Gadair yn gyfrifol am feithrin strategaeth a syniadau ar gyfer celfyddyd gymunedol ar lefel genedlaethol, ac nid ar lefel ranbarthol yn unig?

Cynog Dafis: I had heard a suggestion that perhaps the development would come from the University of Glamorgan. It is obviously to be welcomed and the University of Glamorgan is an entirely suitable location for it. Do you also agree that the University of Glamorgan will need to develop this concept in way that is relevant to the whole of Wales, so that the Chair will be responsible for fostering a strategy and ideas for community arts at a national level, and not just at a regional level?

Jenny Randerson: I agree. I have already scheduled discussions with the university and the Arts Council of Wales to take forward an all-Wales remit for this chair.

Jenny Randerson: Cytunaf. Yr wyf eisoes wedi trefnu trafodaethau â'r brifysgol a Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu cylch gwaith Cymru gyfan i'r gadair hon.

Jonathan Morgan: I am pleased to see some of the recommendations of 'A Culture in Common' being implemented. However, could you outline to the Assembly which of the report's recommendations you intend to carry forward and which ones you do not? We are aware that when it comes to Subject Committee reviews, Ministers tend to cherry pick the recommendations that they like, while ignoring some of the more substantive ones.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn falch o weld rhai o argymhellion 'Diwylliant Cytun' yn cael eu gweithredu. Fodd bynnag, a allwch amlinellu i'r Cynullilad pa rai o argymhellion yr adroddiad yr ydych yn bwriadu eu gweithredu a pha rai nad ydych yn bwriadu eu gweithredu? Yr ydym yn ymwybodol, o ran adolygiadau Pwyllgor Pwnc, bod Gweinidogion yn tueddu i ddewis yr argymhellion yn maent yn eu hoffi, tra'n anwybyddu rhai o'r argymhellion mwy sylweddol.

Jenny Randerson: In the case of 'A Culture in Common', there were over 100 recommendations and they were not prioritised. Therefore, taking them all forward on an equal basis at the same time is not possible. However, when the culture strategy is discussed in Committee in a few weeks' time, you will see that a significant proportion of those recommendations are, in one way or another, encompassed in that strategy.

Jenny Randerson: Yn achos 'Diwylliant Cytûn', yr oedd dros 100 o argymhellion a'r rheini heb eu blaenoriaethu. O ganlyniad, nid yw'n bosibl gweithredu pob un ohonynt ar sail gyfartal ar yr un pryd. Fodd bynnag, pan drafodir y strategaeth ddiwylliant yn y Pwyllgor ymhen rhai wythnosau, gwelwch fod cyfran sylweddol o'r argymhellion hynny wedi eu hymgorffori yn y strategaeth honno, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

Newidiadau i Daliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin Changes to Common Agricultural Policy Payments

Q1 Lynne Neagle: Has the Minister made any assessments of the impact on rural employment of switching spending from CAP payments to support for a broader range of rural businesses? (OAQ13676)

C1 Lynne Neagle: A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw asesiadau o'r effaith ar gyflogaeth wledig, yn sgîl newid gwariant o daliadau polisi amaethyddol cyffredin i gefnogaeth i ystod ehangach o fusnesau gwledig? (OAQ13676)

The Minister for Rural Affairs (Carwyn Jones): You will be aware of the rural development plan and the money that will be made available through it to support rural employment. However, the scope for the Assembly to switch support from the common agricultural policy payments scheme is severely constrained by European Commission regulations, so such an assessment would be of limited value.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones): Byddwch yn ymwybodol o'r cynllun datblygu gwledig a'r arian a fydd ar gael ynddo i gefnogi cyflogaeth yng nghefn gwlad. Fodd bynnag, mae rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyfyngu ar allu'r Cynulliad i drosglwyddo cefnogaeth o'r cynllun taliadau polisi amaethyddol cyffredin, felly ni fyddai llawer o werth i asesiad o'r fath.

Lynne Neagle: Does the Minister agree that the current approach of paying subsidies to farmers is inherently self-defeating given that it distorts employment patterns, artificially boosts land, food and commodity prices and does little or nothing to encourage added value production? Does the Minister also agree that, if we are to spend large sums of money on rural areas, we should be spending it in a way that benefits not only landowners, but the whole community, given that the average capital value of a Welsh family farm is estimated to be £400,000? In view of the constraints on the Assembly that you mentioned, will you make representations to that effect to the UK Government and to the commission?

Lynne Neagle: A gytuna'r Gweinidog fod y dull presennol o dalu cymorthdaliadau i ffermwyr yn hunandrechol yn ei hanfod o gofio ei fod yn gwyrdroi patrymau cyflogaeth, yn codi prisiau tir, bwyd a nwyddau mewn modd artiffisial ac nad yw'n gwneud braidd dim, os o gwbl, i annog cynhyrchiant â gwerth ychwanegol? A gytuna'r Gweinidog hefyd, os ydym am wario arian mawr ar ardaloedd gwledig, y dylem ei wario mewn ffordd sy'n fanteisiol nid yn unig i dirfeddianwyr ond i'r gymuned gyfan o gofio mai £400,000 ar gyfartaledd yw gwerth cyfalaf fferm deuluol Gymreig? O gofio'r cyfyngiadau ar y Cynulliad a grybwyllasoch, a wnewch chi sylwadau i'r perwyl hwnnw i Lywodraeth y DU ac i'r

comisiwn?

Carwyn Jones: Thank you for that observation. We must remember that farmers have been familiar with this system for some time and it will take time for them to adapt to a new one. The system will undoubtedly change and subsidies will change from being payments based on the number of animals. We must ensure that the transition is as smooth as possible. However, in time, we must also boost rural spending in other areas. You, quite rightly, bring this point before the Assembly. If I remember rightly, it was the Conservative Party that suggested in the 1980s that industries that were subsidised, such as mining, were uncompetitive and should be closed down. Now it has changed its tune.

Elin Jones: A gred y Gweinidog y dylid newid y ganran o'r gyllideb Ewropeaidd a gaiff ei gwario ar hyn o bryd ar y polisi amaethyddol cyffredin a datblygu gwledig?

Carwyn Jones: Clywir y ddadl honno'n aml yn y comisiwn. Ar hyn o bryd, mae hi'n bwysicach sicrhau y caiff taliadau newydd y cynllun premiwm blynyddol defaid eu prosesu mewn pythefnos ac, o ganlyniad, y bydd ffermwyr Cymru yn derbyn mwy o arian o'r cynllun ac y byddant mewn sefyllfa lle nad ydynt yn dibynnu ar brisiau ansefydlog. Rhaid cofio y bydd y system gymhorthdaliadau yn newid dros y blynyddoedd nesaf ac y bydd y taliadau'n seiliedig ar ansawdd tir ffermio yn hytrach nag ar nifer yr anifeiliaid. Rhaid sicrhau na fydd ffermwyr Cymru ar eu colled.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): We seem to be seeing the Labour Party's true colours today. I will correct the Minister on one point, although he is not the minister for mining. The Secretary of State who closed the most mines was Tony Benn, who, when I last checked, was not a Conservative. Perhaps the Minister would like to disassociate himself from some of Lynne Neagle's comments about the capital value of farms. Farms cannot be sold and farmers are going out of business throughout Wales. On CAP, what is the Minister doing

Carwyn Jones: Diolch ichi am y sylw hwnnw. Rhaid inni gofio bod ffermwyr wedi bod yn gyfarwydd â'r system hon ers peth amser ac fe gymer amser iddynt addasu i un newydd. Bydd y system yn anochel yn newid a bydd cymorthdaliadau yn newid o fod yn daliadau yn seiliedig ar nifer yr anifeiliaid. Rhaid inni sicrhau bod y newid mor llyfn â phosibl. Fodd bynnag, ymhen amser, rhaid inni hefyd gynyddu gwariant gwledig mewn meysydd eraill. Yr ydych yn dwyn y pwynt hwn gerbron y Cynulliad, ac mae hynny'n briodol. Os cofiaf yn iawn, y Blaid Geidwadol awgrymodd yn y 1980au fod diwydiannau a oedd yn cael cymorthdaliadau, fel gweithfeydd glo, yn anghystadleuol ac y dylid eu cau. Erbyn hyn mae wedi newid ei chân.

Elin Jones: Does the Minister believe that the proportion of European funding that is currently spent on the common agriculture policy and rural development should be altered?

Carwyn Jones: That argument is often heard in the commission. It is currently more important to ensure that the new payments for the sheep annual premium scheme are processed in two weeks' time and, as a result, that the farmers of Wales receive more money from the scheme and are not dependent on fluctuating prices. We must remember that the subsidy system will change over the next few years and that payments will be based on the quality of farm land rather than on the number of animals. We must ensure that the farmers of Wales do not lose out.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Ymddengys ein bod yn gweld y Blaid Lafur fel y mae mewn gwirionedd heddiw. Cywiraf y Gweinidog ar un pwynt, er nad ef yw'r gweinidog dros y gweithfeydd glo. Tony Benn oedd yr Ysgrifennydd Gwladol a gaeodd y nifer fwyaf o weithfeydd glo a phan edrychais y tro diwethaf, nid Ceidwadwr mohono. Efallai yr hoffai'r Gweinidog ymddatgysylltu oddi wrth rai o sylwadau Lynne Neagle ynglŷn â gwerth cyfalaf ffermydd. Ni ellir gwerthu ffermydd ac mae ffermwyr yn mynd i'r wal ledled

to ensure, on behalf of Welsh farmers, that a Welsh voice will be heard in any CAP reform at a European level? We need to ensure that transitional arrangements are made for Welsh farmers and that they do not face an even bleaker future than they do at present.

Carwyn Jones: The price of lamb is increasing. You are right that it is difficult to release the capital value in farms. However, young farmers face difficulty in coming into farming because the price of land is so high. We need to address that. You are right, Nick, there is no Minister for mining—your Government made sure of that in the 1980s. That situation is not right. Your party often says to me that we should ban cheap foreign competition; we did not hear that in the 1980s. However, let us move on, Llywydd. As far as the common agricultural policy is concerned, I have monthly meetings with other territorial Ministers in which we decide what line to take in the European Agriculture Council, which meets a week later. The next meeting of Ministers is on 16 November and will decide on what line we will take on 20 November in the European Agriculture Council meeting.

9:30 a.m.

Taliadau Rheoli Datblygu Development Control Charges

C2 Alun Cairns: What steps is the Minister taking to follow through calls to support development control charges in line with his diversification policies? (OAQ13696)

Carwyn Jones: I will be making assistance available to farmers for planning consultancy advice associated with preparing planning applications for non-agricultural farm diversification projects as part of the Farming Connect initiative.

Alun Cairns: Does the Minister support the views of the Country Land and Business

Cymru. O ran y polisi amaethyddol cyffredin, beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau, ar ran ffermwyr Cymru, y clywir llais Cymru mewn unrhyw ddiwygiad o'r polisi ar lefel Ewropeaidd? Mae angen inni sicrhau y gwneir trefniadau trosiannol i ffermwyr Cymru ac nad ydynt yn wynebu dyfodol hyd yn oed yn fwy llwm nag a wynebant ar hyn o bryd.

Carwyn Jones: Mae pris ŵyn yn codi. Yr ydych yn iawn i ddweud ei bod yn anodd rhyddhau gwerth cyfalaf mewn ffermydd. Fodd bynnag, mae'n anodd i ffermwyr ifanc ddechrau ffermio am fod pris tir mor uchel. Mae angen inni fynd i'r afael â hynny. Yr ydych yn gywir, Nick, nid oes Gweinidog dros weithfeydd glo—sicrhaodd eich Llywodraeth chi hynny yn y 1980au. Nid yw'r sefyllfa honno yn iawn. Mae'ch plaid yn aml yn dweud wrthyf y dylem wahardd cystadleuaeth rad o dramor; ni chlywsom hynny yn y 1980au. Fodd bynnag, symudwn ymlaen, Lywydd. O ran y polisi amaethyddol cyffredin, yr wyf yn cyfarfod yn fisol â Gweinidogion y tiriogaethau eraill lle yr ydym yn penderfynu ar ein safbwynt yn y Cyngor Amaethyddol Ewropeaidd, sy'n cyfarfod wythnos yn ddiweddarach. Mae cyfarfod nesaf y Gweinidogion ar 16 Tachwedd lle y byddwn yn penderfynu ar ein safbwynt yng nghyfarfod y Cyngor Amaethyddol Ewropeaidd ar 20 Tachwedd.

Yr wyf yn falch o weld yr ymrwymiad i symud o glir-dorri i orchuddiad di-dor, ac yr wyf yn falch bod targed penodol ar gyfer hynny. A fyddai'r Gweinidog yn fodlon mynd ymhellach a sefydlu bwriant yn erbyn ail-blannu coed conifferaidd ar dir sydd yn eiddo i'r Cynulliad? Mae 90 y cant o gynnyrch coed Cymru yn dod o dir sydd yn eiddo i'r Cynulliad. Gellid gwneud eithriad lle y byddai lles amgylcheddol, economaidd neu gymdeithasol amlwg, ond byddwn yn hoffi gweld bwriant yn erbyn ail-blannu coed conifferaidd. Byddai planhigfeydd preifat yn rhydd o unrhyw gyfyngiad o'r fath. Byddai planhigfeydd conifferaidd, felly, drwy ail-dyfiant naturiol, yn creu coedwigoedd collddail, a fyddai'n gwneud synnwyr economaidd i genhedlaeth ein plant os nad i ni. Byddai lles i'r amgylchedd, hamdden a thwristiaeth yn cael ei gyflawni ar yr un pryd.

Mae angen symud i system effeithiol o warchodaeth ar gyfer gelltydd hynafol, yn lle'n bod yn colli mwy a mwy ohonynt, a chynnwys hynny yn y polisi cynllunio. Yma eto, byddai modd cael eithriad lle y byddai achos economaidd o bwys strategol. Mae angen ail-blannu hen safleoedd gelltydd hynafol. Mae Coed Cadw wedi dechrau

expenditure, there is a danger that the strategy will be nothing more than fine words.

Ten years ago, the Plaid Cymru document, to which I referred earlier, mentioned the need to develop supply and demand chain—the kind of thing that Coed Cymru has done so successfully, and the kind of thing that the Coed Cymru forum is currently doing. I am pleased to see the emphasis on that and on marketing Welsh wood from certified sources.

A Best Value model must also be developed, which would emphasise the need to maintain the environment and the local economy. Such a public authority purchasing policy could give a significant boost to this industry and to all kinds of local businesses. We must ensure that Welsh wood is used in the new Assembly building, thus contributing to the prosperity of the countryside. I am sure that Glyn Davies would agree with me on that.

I am glad to see the commitment to moving from clear-felling to continuous-cover, and I am pleased that there is a specific target for that. Would the Minister be willing to go further and establish a presumption against replanting conifer trees on land belonging to the Assembly? Some 90 per cent of Welsh timber products come from land belonging to the Assembly. An exception could be made where there would be obvious environmental, economic or social benefit, but I would like to see a presumption against replanting conifer trees. Private plantations would be free from any such constraint. Conifer plantations, would, therefore, through natural regrowth, create deciduous forests, which would make economic sense to our children's generation if not to ours. The environment, leisure and tourism would also benefit.

We need to move to an effective system of protection for ancient woodlands, rather than losing more and more of them, and this must be included in planning policy. Here again, it would be possible to make exceptions were there an economic case of strategic importance. We need to replant former ancient woodlands sites. Coed Cadw has

prosiect rhagorol i adfer saith safle o'r fath. Dylai Menter Coedwigaeth fod yn gwneud rhywbeth tebyg ar ran y Cynulliad. Mae hyn yn fater o flaenoriaeth uchel.

Trof at bolisi Ewropeaidd ac at ddau fater y dylai Carwyn Jones roi sylw iddynt. Yn gyntaf, mae angen cyfrwng a fydd yn galluogi troi cymhorthdal da byw yn daliad ar gyfer cnydau ynni. Nid yw hynny'n digwydd. Ar hyn o bryd, dim ond cymorthdal tir â'r y gellir ei droi'n daliad ar gyfer cnydau ynni. Mae hynny'n anfantais i Gymru ac mae angen ei newid. Yr ail fater—ac mae Glyn Davies eisoes wedi sôn am hyn—yw'r angen am grant ar gyfer plannu coed ar diroedd uchel. Ar hyn o bryd, mae hynny'n amhosibl.

Mae angen datblygu bio-ynni a gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gwneud popeth o fewn ei allu i ddileu'r rhwystrau er mwyn sicrhau bod y diwydiant hwn yn symud yn ei flaen yn gyflym.

Peter Law: I am delighted that we unlike previous Conservative Governments are recognising that forests are not only for profit. People such as William Graham's forefathers, the type of land overseers who used to take the harvest to sell for pitprops, never allowed access to the forest.

David Davies: Only a few years ago, I was part of a campaign to stop the sale of Chepstow Park wood. The Forestry Commission in Wales was responsible for that under a Labour Government.

Peter Law: I am aware of what you did—some of us wish you were still in Chepstow Park wood. This is an important policy document that will benefit all communities in Wales, in terms of inclusion, education, recreation, health, conservation and tourism. It is rightly linked with Communities First and I am delighted that the Minister for Rural Affairs has proposed it today. I thank everyone, from all the different organisations involved, who produced this document. You may ask how it affects disadvantaged communities. You have heard Janice Gregory's words, which came from the heart. I also come from a disadvantaged

started an excellent project to restore seven such sites. The Forest Enterprise should do something similar on behalf of the Assembly. This is a matter of high priority.

I turn to European policy and to two matters which Carwyn Jones must consider. First, there must be a mechanism which allows for the conversion of livestock subsidies into payment for energy crops. That does not happen. At present, you can only convert arable land subsidies into payment for energy crops. That is detrimental to Wales and it needs to be changed. Secondly—and Glyn Davies has already referred to this—is the need for a grant for planting trees on highland. At present, that is impossible.

Bioenergy needs to be developed and I hope that the Minister will do everything possible to remove the obstacles to ensure that this industry moves forward swiftly.

Peter Law: Yr wyf yn hynod falch ein bod ni, yn wahanol i Lywodraethau Ceidwadol yn y gorffennol, yn ystyried bod diben arall i goedwigoedd ar wahân i wneud elw. Nid oedd pobl fel cyndeidiau William Graham, y math o oruchwylwyr tir a arferai werthu'r cynhaeaf er mwyn prynu coed pwll, byth yn caniatáu mynediad i'r goedwig.

David Davies: Dim ond ychydig flynyddoedd yn ôl, yr oeddwn yn rhan o ymgyrch i atal gwerthu coedwig Parc Casgwent. Y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru a oedd yn gyfrifol am hynny o dan Lywodraeth Lafur.

Peter Law: Yr wyf yn ymwybodol o'r hyn a wnaethoch—mae rhai ohonom yn gresynu nad ydych yn dal yng nghoedwig Parc Casgwent. Mae hon yn ddogfen bolisi pwysig a fydd o fudd i bob cymuned yng Nghymru, o ran cynhwysedd, addysg, hamdden, iechyd, cadwraeth a thwristiaeth. Fe'i cysylltir yn briodol â Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ac yr wyf yn hynod falch bod y Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi ei chynnig heddiw. Diolchaf i bawb, o'r holl sefydliadau gwahanol a gyfranogodd, a gynhyrchodd y ddogfen hon. Fe'ch clywaf yn holi sut y mae'n effeithio ar gymunedau difreintiedig. Clywsoch eiriau Janice Gregory, a ddaeth o'r

community, Blaenau Gwent. Now that the Assembly is responsible for the forests in Wales, we are able to open them up as people's forests. That means a great deal to people in deprived areas.

I want to compliment the Minister for Finance, Local Government and Communities on allocating £900,000 to end the large-scale forestry disposals by the Forestry Commission. I support Coed Cadw's approach of asking the Forestry Commission to protect and restore the ancient woodlands in Wales. They are precious and we cannot afford to lose them.

However, why is the Forest Enterprise not pursuing opportunities for tourism in Wales? Why are forest cabins available in Scotland and England but not here? I have asked the enterprise about that many times. Wales has superb forests such as Coed-y-brenin, Clocaenog, Dyfi and Gwrachen. There are even superb forests in south Wales. Why do we not have forest cabins for holidaymakers here? Forestry Enterprise must answer for that. I hope that the Minister will pursue the matter with it—I have already discussed it with its chief executive.

On woodlands for people, I agree with Janice Gregory. We have great examples of woodlands in south Wales that have been opened to the public, and I have visited some of them with my family. The Garwnant Forest Centre in Merthyr Tydfil is a wonderful development and, of course, the Cwm-carn Forest Drive, which everyone knows about.

galon. Yr wyf innau hefyd yn dod o gymuned ddifreintiedig, sef Blaenau Gwent. Gan mai'r Cynulliad sydd bellach yn gyfrifol am goedwigoedd Cymru, gallwn eu hagor fel coedwigoedd y bobl. Golyga hynny lawer iawn i bobl mewn ardaloedd difreintiedig.

Hoffwn hefyd ganmol y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ddyrannu £900,000 i roi'r gorau i'r broses o waredu coedwigoedd a wneir ar raddfa fawr gan y Comisiwn Coedwigaeth. Cefnogaf ymagwedd Coed Cadw sef gofyn i'r Comisiwn Coedwigaeth ddiogelu ac adfer coetiroedd hynafol Cymru. Maent yn werthfawr ac ni allwn fforddio eu colli.

Fodd bynnag, pam nad yw'r Fenter Coedwigaeth yn mynd ar drywydd cyfleoedd ar gyfer twristiaeth yng Nghymru? Pam mae cabanau coedwig ar gael yn yr Alban a Lloegr ond nid yma? Holais y fenter am hynny sawl gwaith. Mae gan Gymru goedwigoedd ardderchog megis Coed-y-brenin, Clocaenog, Dyfi a Gwrachen. Ceir coedwigoedd ardderchog yn Ne Cymru hyd yn oed. Pam nad oes gennym gabanau coedwig ar gyfer twristiaid yma? Cyfrifoldeb y Fenter Coedwigaeth yw ateb hynny. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn mynd ar drywydd y mater gyda hi—yr wyf eisoes wedi trafod y mater gyda'i brif weithredwr.

O ran coetiroedd ar gyfer pobl, cytunaf â Janice Gregory. Mae gennym enghreifftiau gwych o goetiroedd yn ne Cymru a agorwyd i'r cyhoedd, ac yr wyf wedi ymweld â rhai ohonynt gyda'm teulu. Mae Canolfan Wybodaeth Garwnant ym Merthyr Tudfil yn ddatblygiad bendigedig ac, wrth gwrs, gŵyr pawb am Lwybr Coedwig Cwm-carn.

A great deal more needs to be done to include people who live in areas that benefit from these natural, precious environmental assets. If you live 1,000 to 1,300 ft above sea level, the terrain is pretty barren. In the past, the lodge-pole pine, the sitka spruce, the Scots pine, the Corsican pine and Douglas fir were planted. People used to ask, 'Why is it all conifer?' When you have no option you are glad to have conifer. A balance of broad leaf and conifer would be fine; I like to see the greenery all year round. However, it is important to have that balance.

In my community, we have always appreciated the value of these environmental assets. However, no-one ever told us we could access these forests. Now we can tell our people to enjoy these forests as community assets. That is important. In my constituency, Six Bells wood near Abertillery is being opened up in an exemplary way for flora, fauna and wildlife, and for education, health and fitness purposes. I compliment Forest Enterprise on that. Abertillery and Llanhilleth Community Council has worked closely with the enterprise to make the scheme a great success. Last year, that same community council in Abertillery planted a millennium wood in Cwmtillery, supported, I am pleased to say, by the private sector company, Dŵr Cymru.

11:50 a.m.

All these events are important. I have asked Cydcoed to plant more woods within Blaenau Gwent under the Objective 1 scheme and it has agreed. I hope that the Minister will visit us, perhaps to open some of these plantations, in future. We have a place, although small, in your portfolio, Minister, and we would like to see you there. Future generations will benefit from this strategy and the precious environmental asset of our woodlands has been secured. That gives deprived constituencies, such as Blaenau Gwent, more social inclusion.

Mae angen gwneud llawer mwy er mwyn cynnwys pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n elwa ar yr asedau amgylcheddol naturiol, gwerthfawr hyn. Os ydych yn byw rhwng 1,000 a 1,300 troedfedd uwchlaw lefel y môr, mae'r tir yn gymharol ddiffaith. Yn y gorffennol, plannwyd y binwydden bolion, y befrwydden Sitka, pinwydden yr Alban, pinwydden Corsica a ffinidwydden Douglas. Arferai pobl ofyn, 'Pam mai conwydd yw'r holl goed?' Pan nad oes gennych ddewis yr ydych yn falch o gael conwydd. Byddai cydbwysedd rhwng coed llydanddail a chonwydd yn iawn; hoffaf weld glesni drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cael y cydbwysedd hwnnw.

Yn fy nghymuned i, yr ydym bob amser wedi gwerthfawrogi pwysigrwydd yr asedau amgylcheddol hyn. Fodd bynnag, ni ddywedodd neb erioed wrthym y caem fynediad i'r coedwigoedd hyn. Yn awr gallwn ddweud wrth ein pobl am fwynhau'r coedwigoedd hyn fel asedau cymunedol. Mae hynny'n bwysig. Yn fy etholaeth i, mae coedwig Six Bells ger Abertyleri yn cael ei hagor mewn ffordd ganmoladwy ar gyfer planhigion, anifeiliaid a bywyd gwylt ac at ddibenion addysg, iechyd a ffitrwydd. Canmolaf y Fenter Coedwigaeth am hynny. Gweithiodd Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilleth yn agos â'r fenter er mwyn gwneud y cynllun yn llwyddiant mawr. Y llynedd, plannodd yr un cyngor cymuned yn Abertyleri goed mileniwm yng Nghwmtyleri, wedi ei gefnogi, yr wyf yn falch o ddweud, gan un o gwmnïau'r sector preifat, Dŵr Cymru.

Mae'r digwyddiadau hyn i gyd yn bwysig. Gofynnais i Gydcoed blannu rhagor o goedwigoedd ym Mlaenau Gwent o dan y cynllun Amcan 1 ac mae wedi cytuno. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn ymweld â ni yn y dyfodol, efallai er mwyn agor rhai o'r planhigfeydd hyn. Mae gennym le, er mai bychan ydyw, yn eich portffolio, Weindog, a hoffem eich gweld yno. Bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa ar y strategaeth hon ac mae ased amgylcheddol gwerthfawr ein coetiroedd wedi ei ddiogelu. Rhydd hynny fwy o gynhwysedd cymdeithasol i etholaethau difreintiedig, megis Blaenau

Gwent.

William Graham: I join the previous speakers in acclaiming the contribution made to the woodland strategy.

Let us consider the tremendous heritage that is our broadleaf woodland. It is as much a part of our heritage as any part of the built environment. Wales, to consider its 5 per cent of woodland that is broadleaf woodland, has an abundance of alder, ash, sycamore and cherry, relatively small amounts of oak and an even smaller amount of chestnut. Will the Minister therefore consider measures to encourage small volume roundwood processing?

Will he also consider establishing a small venture capital fund and financial incentives for timber marketing and staff training and to offer business support and, particularly, to enable product and supply chain development? It is important that this technology is developed. As previous speakers have said, it is wonderful to be able to go out into broadleaf woodland. In Wales, sadly, 95 per cent of our woodland is coniferous, planted primarily since 1919.

With woodland of the character and quality that we have in Wales, it is small wonder that tourism is so well developed. I need only mention, in terms of this part of the world, or south-east Wales in general, the Wye valley. It is internationally known and benefits the local community greatly. In welcoming this strategy as a first measure, I ask the Minister to take forward further schemes and I hope that he comes forward with even better measures next year.

John Griffiths: I welcome this debate, and the vigour and passion with which the Minister opened this debate and with which other speakers such as Janice Gregory and Peter Law have contributed.

Woodlands are important for quality of life in Wales and for the environment, and the strategy's aims—recreation, biodiversity and community life—are excellent. It proves that the Assembly can see the wood for the trees.

William Graham: Ymunaf â'r siaradwyr blaenorol wrth ganmol y cyfraniad a wnaethpwyd i'r strategaeth coetir.

Gadewch inni ystyried etifeddiaeth aruthrol ein coetir llydanddail. Mae'n gymaint o ran o'n hetifeddiaeth ag unrhyw ran o'r etifeddiaeth adeiledig. Mae gan Gymru, o ystyried y 5 y cant o'i choetir sy'n goetir llydanddail, doreth o wern, ynn, sycamorwydd a choed ceirios, cymharol ychydig o dderw a llai byth o goed castan. A wnaiff y Gweinidog felly ystyried mesurau i annog prosesu coed crwn ar raddfa fach?

A wnaiff hefyd ystyried sefydlu cronfa cyfalaf menter bach a chymhellion ariannol ar gyfer marchnata coed a hyfforddiant staff ac er mwyn cynnig cymorth busnes ac, yn arbennig, er mwyn galluogi'r broses o ddatblygu cynnyrch a'r gadwyn gyflenwi. Mae'n bwysig bod y dechnoleg hon yn cael ei datblygu. Fel y dywedodd siaradwyr blaenorol, mae'n wych gallu mynd allan i'r coetir llydanddail. Yng Nghymru, yn anffodus, mae 95 y cant o'n coetir yn gonwydd, wedi ei blannu ers 1919 yn bennaf.

O ystyried cymeriad ac ansawdd y coetir sydd gennym yng Nghymru, nid yw'n fawr o syndod bod twristiaeth wedi ei ddatblygu mor dda. Nid oes ond rhaid imi sôn, yn nhermau'r rhan hwn o'r byd, neu dde ddwyrain Cymru yn gyffredinol, am ddyffryn Gwy. Mae'n adnabyddus yn rhyngwladol ac mae o fudd aruthrol i'r gymuned leol. Wrth groesawu'r strategaeth hon fel cam cyntaf, gofynnaf i'r Gweinidog ddatblygu cynlluniau pellach a gobeithiaf y bydd yn cyflwyno mesurau gwell byth hyd yn oed y flwyddyn nesaf.

John Griffiths: Croesawaf y ddadl hon, ac egni ac angerdd y Gweinidog wrth agor y ddadl a'r egni a'r angerdd yng nghyfraniadau siaradwyr eraill megis Janice Gregory a Peter Law.

Mae coetiroedd yn bwysig i ansawdd bywyd yng Nghymru ac i'r amgylchedd, ac mae nodau'r strategaeth—hamdden, bioamrywiaeth a bywyd cymunedol—yn rhagorol. Mae'n profi bod y Cynulliad yn

It is important that there is an emphasis on woodlands for people. Members have spoken about deprived communities being sited next to woodland and it is important that those woodlands are opened up and are fully accessible. It is also important for the economy of Wales that we develop timber industries and woodland use, including tourism, mountain biking and other activities.

I move on to the more specific measures that we might take to protect ancient woodland in Wales, which is important in terms of biodiversity. About 80 per cent of Wales's ancient woodland does not have special wildlife status in terms of being a site of special scientific interest or a special area of conservation. Felling licences and tree protection orders are valuable but can be overridden by planning permission. Given that we are developing a new planning policy in Wales, could we consider firm legal protection for ancient woodlands in Wales to remedy that situation? Less than 2 per cent of Wales's land area is covered by ancient woodland and the task of protecting it under planning permission could be facilitated by the fact that sites over 2 hectares are recorded in the Countryside Council for Wales's inventory. It is possible and we should consider it.

Independent certification, which Carwyn supported at the Powys wood fair in September, is also important. We should consider, perhaps, whether all public bodies could be required to purchase timber from certified sources only. That might be permissible under public procurement rules and it should be considered. We should also investigate running a pilot project on the natural regeneration of broadleaf woodland in Wales, and I would like the Minister to address that in his closing speech. Also, if risk analysis on the effect of climatic change on woodland and forestry could be considered, that might place us in a better position to consider the way ahead.

I welcome the additional £900,000 next year for the Forestry Commission in compensation for its decision to end large-scale ancient woodland disposal. I hope that that signals

gallu dethol y pethau pwysig o blith y pethau amherthnasol. Mae'n bwysig bod pwyslais ar goetiroedd ar gyfer pobl. Soniodd yr Aelodau am gymunedau difreintiedig yn cael eu lleoli gerllaw coetir ac mae'n bwysig bod y coetiroedd hynny yn cael eu hagor ac yn gwbl hygyrch. Mae hefyd yn bwysig i economi Cymru ein bod yn datblygu diwydiannau coed a defnydd o goetiroedd, gan gynnwys twristiaeth, beicio mynydd a gweithgareddau eraill.

Symudaf ymlaen at y mesurau mwy penodol y gallwn eu cymryd er mwyn diogelu coetir hynafol yng Nghymru, sydd yn bwysig o ran bioamrywiaeth. Nid oes gan tua 80 y cant o goetir hynafol Cymru statws bywyd gwyllt arbennig o ran bod yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig neu ardal cadwraeth arbennig. Mae trwyddedau torri coed a gorchmynion diogelu coed yn werthfawr ond gellir eu diystyru gan ganiatâd cynllunio. O gofio ein bod yn datblygu polisi cynllunio newydd yng Nghymru, a allwn ystyried sicrhau diogelwch cyfreithiol cadarn ar gyfer coetiroedd hynafol yng Nghymru er mwyn datrys y sefyllfa? Gorchuddir llai na 2 y cant o Gymru gan goetir hynafol a gellid hwyluso'r dasg o'i ddiogelu o dan ganiatâd cynllunio gan fod safleoedd dros 2 hectar yn cael eu cofnodi yn rhestr Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'n bosibl rwydd a dylem ei ystyried.

Mae ardystiad annibynnol, a gefnogwyd gan Carwyn yn ffair goed Powys ym mis Medi, yn bwysig hefyd. Efallai y dylem ystyried a oes modd gorfodi cyrff cyhoeddus i brynu coed o ffynonellau ardystiedig yn unig. Efallai y gellir caniatáu hynny o dan reolau caffael cyhoeddus a dylid ystyried y posibilrwydd. Dylem hefyd ymchwilio i gynnal prosiect peilot ar adfywio coetir llydanddail yn naturiol yng Nghymru, a hoffwn i'r Gweinidog ymdrin â hynny yn ei araith derfynol. Yn ogystal, os gellid ystyried cynnal dadansoddiad risg ynglŷn ag effaith newid hinsawdd ar goetiroedd a choedwigoedd, gallai hynny ein rhoi mewn gwell sefyllfa i ystyried y ffordd ymlaen.

Croesawaf y £900,000 ychwanegol mewn iawndal i'r Comisiwn Coedwigaeth y flwyddyn nesaf am ei benderfyniad i roi'r gorau i'r broses o waredu coetiroedd hynafol

the end of such disposals and a new commitment by the Forest Enterprise to protect and restore the ancient woodland in its care. I hope that the Minister will address those issues in his closing speech.

Mick Bates: First, I declare an interest as a farmer and a member of an innovative woodland scheme called Pontbren.

There is much to welcome in this document. This is the first debate to be held by the Assembly on woodland issues. We must decide on the quality and quantity of woodland needed in Wales and what weight should we give to economic, environmental and social issues. The Assembly owns about 40 per cent of Wales's trees. Fourteen per cent of Wales is woodland and although that is almost three times the level of 80 years ago, the European average today is 32 per cent.

I also welcome the £900,000 that has been used to stop the sale of woodland but I would like the Minister to tell me whether we currently have the full budget to run the Forestry Commission in Wales.

As I have had to shorten my speech on this strategy I will concentrate on two issues. One of the issues listed in the strategic objectives is renewable energy. We have a massive opportunity in Wales for people to work together and achieve many targets while bringing some income to farmers. One element that I wish to highlight in this debate is the practical way that we, as farmers and landowners, can be encouraged to grow more trees. That is a crucial part of whatever strategy we adopt. It is all very well having these strategic objectives, but it is how we deliver them that is crucial. I would like to see a biomass strategy which would suggest that local authorities must consider biomass when replacing boilers. That would encourage the growing of trees and bring additional income to people who own woodland. I commend the Powys Energy Agency, which has received money to consider the feasibility of placing the first biomass boiler in a school.

ar raddfa fawr. Gobeithiaf fod hyn yn arwydd o ddiwedd gwaredu o'r fath ac yn ymrwymiad newydd gan y Fenter Coedwigaeth i ddiogelu ac adfer y coetir hynafol sydd dan ei gofal. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn ymdrin â'r materion hynny yn ei araith derfynol.

Mick Bates: Yn gyntaf, datganaf fuddiant fel ffermwr ac aelod o gynllun coetir dyfeisgar o'r enw Pontbren.

Mae llawer i'w groesawu yn y ddogfen hon. Dyma'r ddadl gyntaf i gael ei chynnal gan y Cynulliad ynglŷn â materion coetir. Rhaid inni benderfynu ar ansawdd a nifer y coetir sydd ei angen yng Nghymru a pha bwyslais y dylem ei roi ar faterion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'r Cynulliad yn berchen ar tua 40 y cant o goed Cymru. Mae 14 y cant o Gymru yn goetir ac er bod hynny bron i deirgwaith cymaint ag 80 mlynedd yn ôl, y cyfartaledd Ewropeaidd heddiw yw 32 y cant.

Croesawaf innau hefyd y £900,000 ychwanegol a ddefnyddiwyd i atal y broses o werthu coetir ond hoffwn i'r Gweinidog ddweud wrthyf a oes gennym y gyllideb lawn i redeg y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru.

Gan imi orfod cwtsogi fy araith ar y strategaeth hon canolbwyntiaf ar ddau fater. Un o'r materion a restrwyd yn yr amcanion strategol yw ynni adnewyddadwy. Mae gennym gyfle aruthrol yng Nghymru i bobl gydweithio a chyflawni llawer o dargedau tra'n dod â rhywfaint o incwm i ffermwyr. Un elfen yr hoffwn ei hamlygu yn y ddadl hon yw'r ffordd ymarferol y gellir ein hannog ni, fel ffermwyr a thirfeddiannwyr, i dyfu mwy o goed. Mae hynny'n rhan allweddol o ba bynnag strategaeth y byddwn yn ei mabwysiadu. Mae'n ddigon hawdd cael yr amcanion strategol hyn, ond y modd y byddwn yn eu cyflwyno sy'n allweddol. Hoffwn weld strategaeth bio-màs fyddai'n awgrymu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried bio-màs wrthosod boeleri newydd. Byddai hynny'n annog y broses o dyfu coed ac yn dod ag incwm ychwanegol i bobl sydd yn berchen ar goetir. Cymeradwyaf Asiantaeth Ynni Powys, sydd wedi derbyn arian er mwyn ystyried ymarferoldeb gosod y

boeler bio-màs cyntaf mewn ysgol.

On the wider rural economy, we also have an opportunity here to establish policies that would assist the survival of many family farms. I congratulate the Forestry Commission and the Assembly on working together on the innovative Pontbren project. It is a co-operative venture whereby 10 neighbouring farms come together in an environment improvement scheme that also includes destocking. Critically, the goods produced on those farms promote good environmental practice and their sale ensures that those farms remain viable.

O ran yr economi wledig ehangach, mae gennym gyfle yma hefyd i sefydlu polisiau a fyddai'n cynorthwyo llawer o ffermydd teuluol i oroesi. Hoffwn longyfarch y Comisiwn Coedwigaeth a'r Cynulliad am gydweithio ar brosiect dyfeisgar Pontbren. Mae'n fenter gydweithredol lle mae 10 fferm gyfagos yn dod ynghyd mewn cynllun gwella'r amgylchedd sydd hefyd yn cynnwys dadstocio. Yn allweddol, bydd y nwyddau a gynhyrchir ar y ffermydd hynny yn hybu arfer amgylcheddol da ac mae eu gwerthiant yn sicrhau bod y ffermydd hynny yn parhau'n ddichonadwy.

Finally, I mention the role of woodlands in the reduction of carbon and floods, and end with a quotation from Professor Doug Godbold of the University of Wales, Bangor, who states:

Yn olaf, soniaf am rôl coetiroedd o ran lleihau carbon a llifogydd, a gorffennaf gyda dyfyniad gan yr Athro Doug Godbold o Brifysgol Cymru, Bangor, sydd yn datgan:

'Throughout the world it has been shown that deforestation of catchments has led to increased run off and catastrophic downstream flooding.'

Not only does afforestation mean that water is released in a more gradual and controlled way, it also reduces carbon dioxide, the gas most responsible for the greenhouse effect. Ultimately, planting trees in Wales will help reduce global warming.

Golyga coedwigiad nid yn unig bod dŵr yn cael ei ryddhau mewn modd mwy graddol a rheoledig, mae hefyd yn lleihau carbon deuocsid, y nwy sydd yn bennaf gyfrifol am yr effaith tŷ gwydr. Yn y pen draw, bydd plannu coed yng Nghymru yn cynorthwyo i leihau cynhesu byd-eang.

Alun Pugh: I welcome the publication of this document. However, I was intrigued to hear the Minister's comments. The mental image of our tree-hugging Minister for Rural Affairs, hurtling around the forests of Wales on a mountain bike, dressed only in a lycra outfit, will stay with me for some time.

Alun Pugh: Croesawaf gyhoeddi'r ddogfen hon. Fodd bynnag, yr oedd yn ddiddorol clywed sylwadau'r Gweinidog. Bydd y ddelwedd feddyliol sydd gennyf o'n Gweinidog dros Faterion Gwledig yn cofleidio coed ac yn mynd fel cath i gythraul o amgylch coedwigoedd Cymru ar feic mynydd, yn gwisgo dim mwy na gwisg lycra, yn aros gyda mi am beth amser.

12:00 p.m.

I was happy to visit ancient woodland in Abergele last weekend. It is an expertly-managed facility that is much-used and greatly appreciated by the local community. Peter Law is right that public access must be a key feature of all woodland strategies. Walking and cycling are two activities that can improve public health in Wales as much as any programme of hospital building.

Yr oeddwn yn falch o gael ymweld â choetir hynafol yn Abergele y penwythnos diwethaf. Mae'n gyfleuster a reolir yn wych a gwneir llawer o ddefnydd ohono ac fe'i gwerthfawrogir yn fawr gan y gymuned leol. Mae Peter Law yn gywir i ddweud y dylai mynediad cyhoeddus fod yn nodwedd allweddol ym mhob strategaeth coetir. Mae cerdded a beicio yn ddau weithgaredd a all

wella iechyd cyhoeddus yng Nghymru gymaint ag y gall unrhyw raglen adeiladu ysbytai.

Finally, green tourism activities in Wales have enormous scope for development. People who can afford around £800 for a mountain bike are able to patronise the up-market tourism that we are trying so hard to develop. The Minister's statement is encouraging, and we need to see more of such work.

Delyth Evans: Yr oeddwn yn ffodus o gael lansio'r strategaeth goetir ar ystâd breifat y Trallwn, ger Beulah yn y canolbarth dros yr haf. Fe'm trawyd gan frwdfrydedd anferth y gynulleidfa tuag at y strategaeth. Yr oedd croeso unfrydol i'r ffaith bod y Cynulliad—dan arweiniad cadarn y Gweinidog dros Faterion Gwledig—wedi mynd i'r afael â'r weithgaredd hollbwysig hon, ac wedi cydnabod o'r diwedd werth anferth coetiroedd Cymru i'n hamgylchfyd, ein cymunedau a'n heconomi.

Mae William Graham yn iawn i dynnu sylw at gyfraniad coetiroedd preifat. Mae 60 y cant o'n coetiroedd un ai yn y sector preifat neu'r sector gwirfoddol. Dylem gydnabod y gwaith da a gyflawnwyd yn y sector preifat, a gweithio'n agos gyda pherchnogion coetiroedd preifat, i ddatblygu a chynyddu gwerth eu gwaith i'r economi a'r amgylchfyd.

Mae rheoli coetiroedd yn weithgaredd hirdymor: mae'n anodd meddwl am unrhyw weithgaredd arall lle'r ydych yn cynllunio 50 mlynedd i'r dyfodol, ac yn gorfod aros hanner canrif cyn disgwyl gweld canlyniad y gwaith a'r buddsoddiad a wneir heddiw. Am bob punt a warir heddiw, ni ellir disgwyl adennill gwerth y bunt honno am o leiaf 40 mlynedd.

Mae amodau arbennig yn perthyn i'r sector hwn, ac y mae'n briodol bod Llywodraeth y Cynulliad a'r partneriaid yn y Comisiwn Coedwigaeth, Awdurdod Datblygu Cymru ac eraill yn cydweithio i gynllunio datblygiad coetiroedd a'r diwydiannau cysylltiedig.

Yn olaf, mae cyfle aruthrol yng Nghymru ar gyfer datblygu gweithgareddau twristiaeth 'gwyrdd'. Mae pobl sy'n gallu fforddio talu tua £800 am feic mynydd yn gallu rhoi nawdd i'r twristiaeth mwy chwaethus a dethol yr ydym yn ymdrechu mor galed i'w ddatblygu. Mae datganiad y Gweinidog yn galonogol, ac mae angen inni weld mwy o waith o'r fath.

Delyth Evans: I was fortunate to be able to launch the woodland strategy on the private Trallwn estate, near Beulah in mid-Wales during the summer. I was struck by the audience's enormous enthusiasm for this strategy. There was unanimous support for the fact that the Assembly—under the strong leadership of the Minister for Rural Affairs—had got to grips with this important activity, and had finally acknowledged the huge importance of Welsh woodlands to our environment, our communities and our economy.

William Graham is right to highlight the contribution of private woodland. Sixty per cent of Welsh woodland is either in the private or voluntary sector. We should acknowledge the achievements of the private sector, and work closely with private woodland owners to develop and increase the value of their work to the economy and environment.

Managing woodland is a long-term activity: it is hard to think of any another activity where you plan 50 years ahead, and have to wait half a century before you can expect to see today's work and investment bear fruit. For every pound that is spent today, one cannot expect to recoup the value of that pound for at least 40 years.

This sector is subject to special conditions, and it is right that the Assembly Government and its partners in the Forestry Commission, the Welsh Development Agency and others work together to plan the development of woodland and associated industries.

Gofynnaf i'r sawl a weithreda'r strategaeth fod yn hyblyg ac i fynd ati yn greadigol. Gofynnaf iddynt gadw prosesau a biwrocraatiaeth i'r lleiaf posibl, gan fod yn barod i ymateb yn gadarnhaol i ofynion y sector, yn enwedig i bobl â chynlluniau da sydd angen cymorth i lwyddo.

Ceir cynllun da ym Mrechfa, yn fy etholaeth i, sef Pobl y Fforest lle mae grŵp o bobl leol yn gweithio'n ddiwyd i greu cynllun cymunedol i ddatblygu eu coedwig. Mae angen help arnynt i ddatblygu'r cynllun, i gael mynediad i grantiau ac ati. Hoffwn weld y Comisiwn Coedwigaeth ac eraill yn ymateb yn gadarnhaol i anghenion y cynllun hwn, ac i gynlluniau tebyg. Pan gaiff cynlluniau cymunedol eu creu, dylai cyrff cyhoeddus roi pob cefnogaeth iddynt, fel bod geiriau'r strategaeth ynglŷn â choetiroedd i bobl yn dod yn realiti ac nid geiriau ar bapur yn unig.

Mae'r strategaeth hon yn uchelgeisiol a mentrus. Os yw'n llwyddiannus, gallwn edrych yn ôl arni fel un o weithredoedd mwyaf arwyddocaol a phellgyrhaeddol dyddiau cynnar y Cynulliad. Cymeradwyaf y Gweinidog ar ei weledigaeth.

Carwyn Jones: Several issues have been raised. One issue that is at the forefront is renewable energy. I reiterate what I said in my opening speech on that. In addition, we are committed to moving ahead quickly on using renewable sources of energy in Wales as part of our international commitments and our duty under section 121 of the Government of Wales Act 1998.

It is estimated that Wales could generate around 125 megawatts of electricity from small roundwood, from forest and sawmill residues, and from short rotation coppice—although not entirely from short rotation coppice, as we do not have enough land to grow that alone. However, together, they can make an important contribution to renewable energy. The Forestry Commission is researching the contribution that forestry could make to reducing greenhouse gases.

I shall address Janice's points first.

I ask those who implement the strategy to be flexible and creative. I ask them to keep processes and bureaucracy to a minimum, and to be ready to react positively to the sector's demands, especially to people with good schemes who need help to succeed.

There is a good scheme in Brechfa, in my constituency, namely, Pobl y Fforest, where a group of local people are working diligently to create a community project to develop their forest. They need assistance to develop that scheme, to get access to grants and so on. I want to see the Forestry Commission and others responding positively to the needs of this and similar schemes. When community schemes are established, public bodies should support them fully, so that the words of the strategy concerning woodlands for people become a reality and not merely words on paper.

This strategy is ambitious and innovative. If it is successful, we can look back on it as one of the most significant and far-reaching acts of the Assembly's early days. I commend the Minister on his vision.

Carwyn Jones: Codwyd sawl mater. Un mater blaenllaw yw ynni adnewyddadwy. Ailadroddaf yr hyn a ddywedais yn fy araith agoriadol am hynny. Yn ogystal, yr ydym yn ymrwymedig i symud ymlaen yn gyflym o ran defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru fel rhan o'n hymrwymiaidau cenedlaethol a'n dyletswydd o dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Amcangyfrifir y gallai Cymru gynhyrchu tua 125 megawatt o drydan o goed crwn bach, o waddodion coedwig a melinau llifio, ac o gylchdroi coedlannau byr—er nad yn gyfangwbl o gylchdroi coedlannau byr, gan nad oes digon o dir gennym i dyfu hwnnw ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, gallant wneud cyfraniad pwysig i ynni adnewyddadwy. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ymchwilio i'r cyfraniad y gall coedwigaeth ei wneud i leihau nwyon tŷ gwydr.

Ymdriniaf â phwyntiau Janice i ddechrau.

Undoubtedly, she is right that now is the time that people should again appreciate that the woodlands of Wales belong to the people of Wales. They are a resource for the people of Wales to enjoy. I should perhaps declare an interest as a former director of the Bridgend Valleys Railway Company, in that regard.

Cododd Cynog sawl pwynt pwysig. Derbynaf ei bwynt ynglŷn â'r fforwm. Byddaf yn gofyn i'r fforwm ystyried targedau ac i ba gyfeiriad yr ydym yn mynd gyda'r strategaeth hon. Fodd bynnag, ynglŷn â chonwydd, mae'n rhaid cofio hefyd fod llawer o gonwydd sydd yn hen ac wedi bod yno ers hanner canrif a mwy, yn enwedig yn ardal Dolgellau. Mae'r coed hyn—neu golfenni, fel dywedwn ym Morgannwg—yn rhan o etifeddiaeth a thraddodiad ein coedwigoedd yng Nghymru.

Ein nod yn y dyfodol yw tyfu cymysgedd o wahanol fathau o goed. Mae'n rhaid ystyried ein coed traddodiadol a naturiol yng Nghymru, ond mae'n rhaid inni gofio hefyd fod 95 y cant o elw coedwigaeth yn dod o gonwydd. Mae'n rhaid cofio bod coedwigoedd yn chwarae rhan fasnachol. Bydd yn rhaid wrth gonwydd yn y dyfodol i bobl allu gwneud elw ar goedwigoedd.

Cynog Dafis: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am roi cyfle arall imi siarad. Yr hyn a olygais oedd pan fo coed gelltydd sbriws ac yn y blaen yn cael eu clirdorri, a fyddai'n briodol i beidio ag ailblannu â'r math hwnnw o goed oni allech ddangos bod rheswm economaidd cryf dros wneud hynny? Wedyn gallech adael i aildyfiant naturiol greu coed llydanddail traddodiadol, yn lle'r fforestydd unffurf yr ydym wedi eu gweld ers blynyddoedd.

Carwyn Jones: Gofynnaf i'r fforwm ystyried hynny i weld a yw'n synhwyrol i'r dyfodol. Byddaf yn sicrhau y caiff Cynog wybod beth a wna'r fforwm ynglŷn â hynny.

Yr oedd gan Cynog sawl syniad diddorol ynglŷn â throsglwyddo cymhorthdal o dda byw i gnydau ynni. Ystyriaf hynny. Mae sawl Aelod wedi sôn am y grantiau sydd ar gael i'r ucheldiroedd yn enwedig, a'r problemau cyfredol. Soniodd Mick am brosiect Pontbren

Heb amheuaeth, mae'n gywir mai dyma'r amser i bobl sylweddoli mai pobl Cymru sydd yn berchen ar goetiroedd Cymru. Maent yn adnodd i bobl Cymru eu mwynhau. Yn hynny o beth efallai y dylwn ddatgan buddiant fel cyn-gyfarwyddwr Cwmni Rheilffordd Cymoedd Pen-y-bont ar Ogwr.

Cynog raised several important points. I accept his point about the forum. I will ask the forum to consider targets and the direction in which we are going as regards this strategy. However, regarding conifers, it must also be remembered that many of these conifers are old and have been established for half a century or more, especially in the Dolgellau area. These trees—or *colfenni* as we call them in Glamorgan—are part of the heritage and tradition of our woodlands in Wales.

Our future aim is to grow a mixture of different types of trees. We must consider our traditional and natural trees in Wales, but we must also remember that 95 per cent of the profit from forestry comes from conifers. It must be remembered that forestry has a commercial role. We must have conifers in the future so that people can make a profit from woodlands.

Cynog Dafis: I am grateful to the Minister for giving me another opportunity to speak. What I meant was that when spruce hillsides and so on are clear-felled, would it be appropriate not to replant with that sort of wood, unless you could show that there is a strong economic reason for doing so? You could then leave the natural regrowth to create traditional broadleaf woods, instead of the uniform forests that we have seen for years.

Carwyn Jones: I will ask the forum to consider that to see whether it would be sensible in the future. I shall ensure that Cynog knows what the forum will do about that.

Cynog had several interesting ideas about transferring subsidies from livestock to energy crops. I will consider that. Several Members have mentioned the grants available in upland areas especially, and the current problems. Mick mentioned the

a'i broblemau ynglŷn â sicrhau grantiau.

Pontbren project and its problems in securing grants.

William mentioned that he wants to see more broadleaf woodlands. They are increasing in Wales and now account for 30 per cent of the trees of Wales's woodlands. The figure of 5 per cent is the amount of income derived from broadleaf trees. We seek to encourage greater recognition and planting of native species. We must remember that when the Forestry Commission was originally established, its remit was to produce straight trees for pitprops. That is why we have so many conifers. Historically, it is difficult to move away from that. We cannot do so quickly, we must ensure that we take the stakeholders in forestry with us.

Soniodd William ei fod am weld mwy o goetiroedd llydanddail. Maent yn cynyddu yng Nghymru a bellach maent yn gyfrifol am 30 y cant o goed yng nghoetiroedd Cymru. Pump y cant yw cyfanswm yr incwm a ddaw o goed llydanddail. Yr ydym yn ceisio annog y broses o adnabod a phlannu mwy o rywogaethau brodorol. Pan sefydlwyd y Comisiwn Coedwigaeth yn wreiddiol, rhaid inni gofio mae ei gylch gorchwyl oedd cynhyrchu coed syth ar gyfer coed pwll. Dyna pam bod gennym gymaint o gonwydd. Yn hanesyddol, mae'n anodd symud oddi wrth hynny. Ni allwn wneud hynny'n gyflym, rhaid inni sicrhau ein bod yn cynnwys rhanddeiliaid coedwigaeth yn y broses.

John Griffiths raised a number of matters. First, he asked whether it would be possible for public procurement only to purchase certified timber. That comes under Best Value, and must be discussed with Edwina Hart and with local government. However, I encourage people to use certified Welsh wood in their building projects. John raised a number of other matters, in particular that of the natural regeneration of broadleaf woodlands. Yes, the days have gone when we seek to see row after row of conifers and clear felling. Those days will soon be behind us. Those who are familiar with the novel *Wythnos yng Nghymru Fydd* by Islwyn Ffowc Elis will know that the nightmare scenario for Wales depicted there has forest extending over hill after hill so that the whole country is covered by forest. Let us hope that people understand that forest is a friend to the people of Wales and part of the heritage of which we can be absolutely proud.

Cododd John Griffiths nifer o faterion. Yn gyntaf, gofynnodd a fyddai'n bosibl i gaffael cyhoeddus prynu coed ardystiedig yn unig. Daw hynny o dan Gwerth Gorau, a rhaid trafod y mater gydag Edwina Hart a chyda llywodraeth leol. Fodd bynnag, anogaf bobl i ddefnyddio coed Cymru ardystiedig yn eu prosiectau adeiladu. Cododd John nifer o faterion eraill, yn arbennig y broses o adfer coetiroedd llydanddail yn naturiol. Ydyw, mae'r dyddiau wedi diflannu lle byddem am weld rhesi o gonwydd a chlir-dorri. Daw y dyddiau hynny i ben yn fuan. Byddai'r rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â'r nofel *Wythnos yng Nghymru Fydd* gan Islwyn Ffowc Elis yn gwybod am y sefyllfa hunllefus a ddarlunnir ar gyfer Cymru yn cynnwys coedwigaeth yn ymestyn fryn ar ôl bryn fel bod y wlad i gyd wedi ei gorchuddio gan goedwigaeth. Gobeithiwn fod pobl yn deall mai cyfaill i bobl Cymru yw coedwigaeth a rhan o'r etifeddiaeth y gallwn fod yn gwbl falch ohoni.

12:10 p.m.

Finally, Mick Bates asked whether we should seek to encourage renewable energy. Of course we should. Some months ago, I was privileged to visit a manufacturing plant that produces wooden pellets just beyond the boundary of my constituency in Janice Gregory's constituency, Ogmore.

Alun Cairns: It is also my constituency.

Carwyn Jones: I do not remember you standing for election there, Alun, but if you want to make a point of it.

Many of the pellets are made from sawdust. It is a tremendous example of recycling and how a material that was previously thrown away can be used to produce energy. These are exciting times for our woodlands. I commend the motion.

Yn olaf, gofynnodd Mick Bates a ddylem geisio annog ynni adnewyddadwy. Wrth gwrs y dylem. Rai misoedd yn ôl, cefais y fraint o ymweld â ffatri gweithgynhyrchu sy'n cynhyrchu pelenni pren ychydig y tu draw i'm hetholaeth yn Ogwr, sef etholaeth Janice Gregory.

Alun Cairns: Fy etholaeth i ydyw hefyd.

Carwyn Jones: Nid wyf yn eich cofio yn sefyll etholiad yno, Alun, ond os ydych yn mynnu gwneud pwynt ynglŷn â'r peth.

Gwneir llawer o'r pelenni o lwch lli. Mae'n enghraifft ragorol o ailgylchu a'r modd y gall deunydd a waredwyd yn flaenorol gael ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni. Mae'r rhain yn amseroedd cyffrous i'n coetiroedd. Cymeradwyaf y cynnig.

Gwelliant 1: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amendment 1: For 48, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Middlehurst, Tom

Morgan, Jonathan
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Richards, Rod
 Rogers, Peter
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment carried.*

Amended motion:

Cynnig wedi'i ddiwygio:

the National Assembly:

y Cynulliad Cenedlaethol

1. notes with approval that its long-term strategy for trees and woodlands, prepared as part of its sustainable development scheme made under section 121 of the Government of Wales Act 1998, was published in July under the title 'Woodlands for Wales', and that it is available on the internet at www.forestry.gov.uk/woodlandsforwales;

1. yn nodi gyda chymeradwyaeth bod ei strategaeth hirdymor ar gyfer coed a choetiroedd, a luniwyd fel rhan o'i gynllun datblygu cynaliadwy o dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1998, wedi cael ei chyhoeddi fis Gorffennaf o dan y teitl 'Coetiroedd i Gymru' a'i bod ar gael ar y rhyngwrdd www.forestry.gov.uk/woodlandsforwales;

2. also notes with approval the progress already made towards implementing this strategy, and that a woodland forum has been established to monitor this progress;

2. hefyd yn nodi gyda chymeradwyaeth y camau a gymerwyd eisoes tuag at weithredu'r strategaeth hon, a bod fforwm coetiroedd wedi cael ei ffurfio i fonitro'r camau hyn;

3. and recognises the significant contribution that private woodland owners will make to enhancing the social and economic benefits of woodlands to the wider community.

3. ac yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y bydd perchnogion coetiroedd preifat yn ei wneud o ran cynyddu manteision cymdeithasol ac economaidd coetiroedd i'r gymuned ehangach.

A personal copy of 'Woodlands for Wales' was distributed to all Members on 31 October 2001. (NDM830)

Dosbarthwyd copi personol o 'Coetiroedd i Gymru' i bob Aelod ar 31 Hydref 2001. (NDM830)

Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amended motion: For 48, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor

Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.
Amended motion carried.*

Dadl Fer Short Debate

Bywyd yn y Cylch Arwerthu: Pam mae Arwerthiannau Da Byw yn Bwysig Life in the Ring: Why Livestock Auctions Matter

Peter Rogers: I declare an interest. I have agreed to take a contribution from the chair of the Agriculture and Rural Development Committee, Glyn Davies, and one-minute contributions from Elin and Mick.

Peter Rogers: Datganaf ddi-ddordeb. Yr wyf wedi cytuno i dderbyn cyfraniad gan gadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Glyn Davies, a chyfraniadau un munud gan Elin a Mick.

I welcome all those who have travelled here from across Wales today to support the

Croesawaf bawb sydd wedi teithio yma heddiw o bob rhan o Gymru i gefnogi'r

auctions. I appreciate that. I thank Glyn Owens of the Welsh Livestock Auctioneers' Association for organising the petition of letters from farmers across Wales. About 6,000 letters have been collected in under a week, which shows the tremendous support for Welsh auctioneers.

Let me make it clear that the message of this debate is the importance of auctions. I am not calling for auctions to be opened immediately. This would only invite the Minister to call me 'thick-head' again. I hope that my speech will help the Minister understand how important the livestock auctions are for Welsh agriculture. He clearly does not understand their importance, because he said in Plenary two weeks ago:

'Few of the farmers that I meet say that livestock auctions are the fairest system of selling livestock. I have met the livestock auctioneers. My view has always been that, as things stand, it is difficult for farmers to obtain a fair price through auction.'

The Minister's words have shocked and baffled the industry. At yesterday's Committee meeting, he tried to dig his way out of this hole. However, he still managed to say that there are massive weaknesses in the present system. He should have drawn attention to the massive strengths of the present system. His choice of emphasis only reinforces the negative message that he is sending out about auctions.

The level of concern in the industry about his comments is plain to see today. Minister, representatives of the Welsh Livestock Auctioneers' Association and the presidents of the two unions are here today to tell you that you are wrong. You should listen carefully to what they have to say. You have clearly misjudged the mood of the industry.

I have been lucky in securing today's debate. The Minister has frustrated all my attempts to help my constituents, who have had to face serious problems. Letters have gone unanswered for months and the eventual

arwerthiannau. Gwerthfawrogaf hynny. Diolchaf i Glyn Owens o Gymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru am drefnu'r ddeiseb llythyrau gan ffermwyr ledled Cymru. Casglwyd tua 6,000 o lythyrau mewn llai nag wythnos, sy'n dangos y gefnogaeth aruthrol i arwerthwyr Cymru.

Gadewch imi ei gwneud yn glir mai neges y ddadl hon yw pwysigrwydd arwerthiannau. Nid wyf yn galw am agor arwerthiannau ar unwaith. Byddai hynny yn wahoddiad i'r Gweinidog fy ngalw yn 'ynfyty'n' unwaith eto. Gobeithiaf y bydd fy araith yn helpu'r Gweinidog i ddeall pa mor bwysig yw arwerthiannau da byw i amaethyddiaeth Cymru. Mae'n amlwg nad yw'n deall eu pwysigrwydd, gan iddo ddweud mewn Cyfarfod Llawn bythefnos yn ôl:

'Nid oes llawer o'r ffermwyr yr wyf yn cwrdd â hwy yn dweud mai arwerthiannau da byw yw'r system decaf o werthu da byw. Yr wyf wedi cwrdd ag arwerthwyr da byw. Fy marn erioed fu ei bod yn anodd i ffermwyr gael pris teg am dda byw drwy arwerthiannau, fel y saif pethau ar hyn o bryd.'

Mae geiriau'r Gweinidog wedi dychryn a drysu'r diwydiant. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ddoe, ceisiodd gloddio ei ffordd allan o'r twll hwn. Fodd bynnag, llwyddodd i ddweud bod gwendidau mawr yn y system bresennol. Dylai fod wedi tynnu sylw at gryfderau mawr y system bresennol. Y cyfan a wna ei ddewis o bwyslais yw atgyfnerthu'r neges negyddol y mae'n ei chyfleu ynglŷn ag arwerthiannau.

Mae'r pryder am ei sylwadau o fewn y diwydiant yn amlwg heddiw. Weinidog, mae cynrychiolwyr Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru a llywyddion y ddau undeb yma heddiw i ddweud wrthy'ch eich bod yn anghywir. Dylech wrando'n astud ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Yr ydych yn amlwg wedi camddechongli teimladau y diwydiant.

Bûm yn ffodus i sicrhau'r ddadl hon heddiw. Mae'r Gweinidog wedi rhwystro pob ymgais ar fy rhan i helpu fy etholwyr, sydd wedi gorfod wynebu problemau dybryd. Mae llythyrau heb eu hateb ers misoedd ac mae'r

replies are often meaningless. Recently, I asked the Minister to justify why auctioneers who were operating collection centres were being charged for veterinary inspection, while the same rules were not applied to abattoirs. When I finally received a reply, he said that the rules were necessary on biosecurity grounds. However, this letter was meaningless because the veterinary charges had been abolished two weeks previously. There are other examples of victimising the auctions. Why must all the lambs that go to the collection centres operated by the auctions be tagged, when the same rule does not apply to the abattoirs? Why has the Minister not done anything to defend the Welshpool market against the Department of the Environment, Food and Rural Affairs's vicious slur that it was a source of foot and mouth disease? The Minister should show us evidence for that claim. I suspect that he does not release that information because he does not have it.

Minister, it is good to be able to debate this with you in the Chamber where there are no officials whispering duff information into your ears. It is like being at Bridgend rugby club, but not sipping a pint of Brains as you were on your recent television appearance. This time you are on the Brewery Field, the ball is in your hands and you are under the posts, the wind and rain are against you and you have no strength to kick the ball into touch. I am leading the opposition, charging downfield towards you. Give me the ball or face the consequences. But remember I have a huge pack behind me and you are on your own.

Before the foot and mouth disease outbreak, the auction system was responsible for the sale of up to 80 per cent of Welsh livestock. They have proven expertise in the meat trade that is second to none. They have records of animal movements that are regularly used by Assembly divisional offices to cross-reference movements. They have an extensive knowledge of farmers, their land and location. More importantly, they speak the farmers' language. Any sensible Minister would have ensured that such expertise and information was used during the foot and

atebion yn y pen draw yn aml yn ddi-werth. Yn ddiweddar, gofynnais i'r Gweinidog gyfiawnhau pam bod arwerthwyr oedd yn gweithredu canolfannau casglu yn gorfod talu am archwiliad milfeddygol, ac nad oedd yr un rheolau yn berthnasol i ladd-dai. Pan gefais ateb yn y pen-draw, dywedodd fod y rheolau'n angenrheidiol ar sail bioddiogelwch. Fodd bynnag, yr oedd y llythyr hwn yn ddi-werth gan i'r taliadau milfeddygol gael eu diddymu bythefnos ynghynt. Ceir enghreifftiau eraill o dargedu'r arwerthiannau. Pam bod angen tagio pob oen sy'n mynd drwy'r canolfannau casglu a weithredir gan yr arwerthiannau, ond nad yw'r rheol honno yn berthnasol i ladd-dai? Pam nad yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw beth i amddiffyn marchnad y Trallwng yn erbyn sarhad milain Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ei bod yn ffynhonnell clwy'r traed a'r genau? Dylai'r Gweinidog ddangos tystiolaeth inni o hynny. Tybiaf nad yw'n rhyddhau'r wybodaeth honno gan nad yw ganddo.

Weinidog, mae'n dda gallu cynnal dadl ar hyn gyda chi yn y Siambr, lle nad oes swyddogion yn sibrdw gwybodaeth ffug yn eich clustiau. Mae fel bod yng nhlwb rygbi Pen-y-bont ar Ogwr, ond nid yn sipian peint o Brains fel yr oeddech ar eich ymddangosiad diweddar ar y teledu. Y tro hwn, yr ydych ar Gae'r Bragdy, mae'r bêl yn eich dwylo ac yr ydych o dan y pyst. Mae'r gwynt a'r glaw yn eich erbyn ac nid oes gennych nerth i gicio'r bêl i'r ystlys. Yr wyf yn arwain y gwrthwynebwyr, yn hyrddio i lawr y cae tuag atoch. Rhowch y bêl i mi neu wynebwich y canlyniadau. Ond cofiwch fod gennyf dîm anferth y tu ôl i mi ac yr ydych chi ar eich pen eich hun.

Cyn argyfwng clwy'r traed a'r genau, yr oedd y system arwerthiannau yn gyfrifol am werthu hyd at 80 y cant o dda byw Cymru. Mae ganddynt arbenigedd o'r radd flaenaf yn y fasnach gig. Mae ganddynt gofnodion o symudiadau anifeiliaid a gaiff eu defnyddio'n rheolaidd gan swyddfeydd is-adrannau'r Cynulliad i groesgyfeirio symudiadau anifeiliaid. Mae ganddynt wybodaeth helaeth am ffermwyr, eu tir a'u lleoliad. Yn bwysicach na hynny, maent yn siarad iaith y ffermwr. Byddai unrhyw Weinidog synhwyrol wedi sicrhau y byddai arbenigedd

mouth disease crisis; but you do not understand that. Any sensible Minister would have ensured that that expertise was represented in various task forces and consultation groups; but you do not understand that. Any sensible Minister would have praised the hard work undertaken by the auctions for the industry during the crisis; but you do not understand that.

Unlike the Minister, I do understand and I am here to say 'thank you' to the auctioneers for their help and for the support that they gave farmers and their families during this terrible crisis. Perhaps, the Minister will tell us how he thinks we will establish market values in the absence of the auction system. After all, most direct-to-abattoir sales are based on prices first established in the market place. Without the livestock markets, the abattoirs have a monopoly on fixed prices. That has never been more evident than during the last nine months when auctions have not been in operation.

In every walk of life, competition is healthy. Without competition, standards drop. The operation of auctions is transparent. If the Minister allows the auctions to disappear, standards of quality will definitely drop because there will be fewer incentives to produce the best because the rewards will not be there. That will result in pushing livestock prices down even further. Therefore, the Minister is undermining his own policy of premium value added produce, which he is so keen to promote. A good Minister would recognise the fundamental social and cultural significance of the auctions to Welsh agriculture; but you do not understand that either.

Hopefully, the Minister will read some of the letters that have been delivered here today—there are over 7,000. Many more were being collected from auctioneers' offices this morning. One letter from the Vale of Clwyd MIND association stood out. It states:

a gwybodaeth o'r fath yn cael eu defnyddio yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau; ond ni ddeallwch hynny. Byddai unrhyw Weinidog synhwyrol wedi sicrhau y câi'r arbenigedd hwnnw ei gynrychioli mewn tasgluoedd a grwpiau ymgynghori amrywiol; ond ni ddeallwch hynny. Byddai unrhyw Weinidog synhwyrol wedi canmol y gwaith caled a wnaethpwyd gan yr arwerthiannau ar ran y diwydiant yn ystod yr argyfwng; ond ni ddeallwch hynny.

Yn wahanol i'r Gweinidog, yr wyf fi yn deall ac yr wyf yma i ddiolch i'r arwerthwyr am eu help ac am y cymorth a roddasant i ffermwyr a'u teuluoedd yn ystod yr argyfwng ofnadwy hwn. Efallai y dywed y Gweinidog wrthym sut y mae'n credu y byddwn yn sefydlu gwerthoedd marchnad yn absenoldeb y system arwerthiannau. Wedi'r cyfan, mae'r rhan fwyaf o werthiannau uniongyrchol i'r lladd-dy yn seiliedig ar brisiau a bennwyd yn gyntaf yn y farchnad. Heb y marchnadoedd da byw, mae gan ladd-dai fonopoli ar brisiau sefydlog. Ni fu hyn erioed mor amlwg nag yn ystod y naw mis diwethaf pan na fu arwerthiannau yn gweithredu.

Ym mhob agwedd ar fywyd, mae cystadleuaeth yn iach. Heb gystadleuaeth, mae safonau'n gostwng. Mae'r ffordd y gweithredir arwerthiannau yn dryloyw. Pe bai'r Gweinidog yn caniatáu i arwerthiannau ddiflannu, bydd safonau ansawdd yn sicr o ostwng gan y bydd llai o ysgogiad i gynhyrchu'r gorau gan na fydd y gwobrau ar gael. Canlyniad hynny fydd gwthio prisiau da byw yn is. Felly, mae'r Gweinidog yn tanseilio ei bolisi ei hun o gynnyrch gwerth ychwanegol o'r radd flaenaf, y mae mor awyddus i'w hyrwyddo. Byddai Gweinidog da yn cydnabod arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol sylfaenol yr arwerthiannau i amaethyddiaeth Cymru; ond ni ddeallwch hynny ychwaith.

Y gobaith yw y bydd y Gweinidog yn darllen rhai o'r llythyrau a anfonwyd yma heddiw—mae dros 7,000 ohonynt. Yr oedd llawer mwy yn cael eu casglu o swyddfeydd arwerthwyr y bore yma. Yr oedd un llythyr o gymdeithas MIND Dyffryn Clwyd yn sefyll allan. Mae'n nodi:

‘The livestock auctions have a vital role to play in promoting good health in the farming community and preventing stress developing into more serious mental health problems.’

12:20 p.m.

You will remember that the rural recovery fund sets money aside particularly for mid Wales and Anglesey to support stress problems resulting from the foot and mouth disease crisis. Any good Minister would want to do all that he could to ensure that he protected the valuable role of these auctions. You do not understand that either.

Let us hear the Minister’s words one more time:

‘Few of the farmers that I meet say that livestock auctions are the fairest system of selling livestock.’

Your comments are ill-informed, misguided and plain wrong. I hope that you will speak to the farmers and auctioneers present today and listen to their views. I hope that you will also pay attention to the 7,000 letters that have already been received in support of the auction system.

Unlike the Minister, let us all give thanks for the livestock auctions.

Glyn Davies: In politics, personalities are important in defining the course of events. Today, we see two big men defining the future of livestock markets in Wales. In the red corner stands the Minister for Rural Affairs, Carwyn Jones, who has built a substantial reputation over the last 18 months. However, it seems from his words, which have already been quoted twice in today’s debate, that he is not wholly committed to our traditional livestock markets. In the blue corner stands Peter Rogers, a club-swinging, bone crusher of a man who has rampaged out of his Ynys Môn stronghold to detonate verbal cluster bombs on his opponents and strike terror in the hearts of those who have fallen within his gun sights. He has sallied forth from his Ynys Môn lair in defence of our traditional livestock markets.

Fe gofiwch fod y gronfa adfer gwledig yn rhoi arian o’r neilltu yn benodol ar gyfer Canolbarth Cymru ac Ynys Môn i gynorthwyo gyda phroblemau straen sy’n deillio o argyfwng clwy’r traed a’r genau. Byddai unrhyw Weinidog da yn dymuno gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau ei fod yn amddiffyn rôl bwysig yr arwerthiannau hyn. Ni ddeallwch hynny ychwaith.

Beth am glywed geiriau’r Gweinidog unwaith eto:

‘Nid oes llawer o’r ffermwyr yr wyf yn cwrdd â hwy yn dweud mai arwerthiannau da byw yw’r system decaf o werthu da byw.’

Mae eich sylwadau yn deillio o gamwybodaeth, maent yn gamarweiniol ac yn gwbl anghywir. Gobeithiaf y byddwch yn siarad â’r ffermwyr a’r arwerthwyr sydd yma heddiw ac yn gwrandao ar eu barn. Gobeithiaf hefyd y byddwch yn talu sylw i’r 7,000 o lythyrau a dderbyniwyd eisoes i gefnogi’r system arwerthiannau.

Yn wahanol i’r Gweinidog, gadewch i bawb ohonom ddiolch am y system arwerthiannau.

Glyn Davies: Mewn gwleidyddiaeth, mae personoliaethau yn bwysig wrth lywio digwyddiadau. Heddiw, gwelwn ddau ddyn mawr yn diffinio dyfodol marchnadoedd da byw yng Nghymru. Yn y gornel goch, saif y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Carwyn Jones, sydd wedi creu cryn enw iddo’i hun dros y 18 mis diwethaf. Fodd bynnag, ymddengys o’i eiriau, a ddyfynnwyd ddwywaith eisoes yn y ddatl heddiw, nad yw’n gwbl ymrwymedig i’n marchnadoedd da byw traddodiadol. Yn y gornel las, saif Peter Rogers, gŵr barbaraid o oes y cerrig sydd wedi rhuthro allan o’i gaer ar Ynys Môn i ymosod ar ei wrthwynebwyr gyda ffrwydron clwstwr geiriol a chreu braw yng nghalonau’r rhai sydd wedi dod o fewn golwg i’w ynau. Mentrodd allan o’i ogof yn Ynys Môn i amddiffyn ein marchnadoedd da byw traddodiadol.

I read last week how the Roman army broke British resistance when cavalry, despatched from its Wroxeter fortress, took the island of Anglesey. The Roman general of Britain at the time, Gnaeus Julius Agricola, admitted that his soldiers had never faced such fierce opponents. He was fortunate that Peter Rogers had not arrived on the scene or the whole island story of Britain would have been different.

Carwyn Jones's comments on livestock markets are wrong. He does not feel rural Wales's heartbeat. His words are a monumental mistake. For competition, community and other reasons, our livestock markets are crucial and must be defended. On this issue, I stand in the blue corner, called to arms and four-square behind Peter Rogers, the beast of Bodrida, because he is right and the Minister is wrong.

Elin Jones: There may be two big men in this debate, but this little woman wants to have her minute as well.

Fel Peter, cefais innau sioc o glywed barn y Gweinidog ar farchnadoedd da byw yn y Siambr bythefnos yn ôl. Yr oedd diffyg ymrwymiad ar ei ran i gydnabod pwysigrwydd martau. Maent yn bwysig yn economaidd i ffermwyr ac i drefi marchnad. Mae iddynt hefyd bwysigrwydd cymdeithasol mewn cymunedau gwledig. Yr oedd diffyg dealltwriaeth ar ran y Gweinidog o rôl y mart yn y farchnad anifeiliaid stôr, sy'n rhan annatod o batrwm amaethu Cymru. Gobeithiaf y gall ddweud rhywbeth am hynny.

Hoffwn i'r Gweinidog ein sicrhau heddiw o'i gefnogaeth i'r system farchnadoedd da byw. Hoffwn iddo sefydlu cronfa, fel y dywedais yn ystod y ddadl ar y gyllideb, i adfywio a moderneiddio'r martau wedi clwy'r traed a'r genau. Y peth pwysicaf y prynhawn yma yw ei fod yn ein sicrhau y caiff y martau eu hail-agor cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mick Bates: I declare an interest as a farmer who trades regularly with livestock markets. A referee is needed in this 'life in the ring'

Darllenais yr wythnos diwethaf ynglŷn â sut y torrodd byddin y Rhufeiniaid wrthsafiad y Prydeinwyr, pan oresgynwyd Ynys Môn gan farchoglu a anfonwyd o'i gaer yn Wroxeter. Cyfaddefodd Gnaeus Julius Agricola, cadfridog Rhufeinig Prydain ar y pryd, nad oedd ei filwyr erioed wedi wynebu gwrthwynebwyr mor ffyrnig. Yr oedd yn ffodus na chyrhaeddodd Peter Rogers y maes neu byddai hanes ynsoedd Prydain gyfan wedi bod yn wahanol.

Mae sylwadau Carwyn Jones ar farchnadoedd da byw yn anghywir. Nid yw'n teimlo curiad calon Cymru wledig. Mae ei eiriau yn gamgymeriad anferthol. Oherwydd cystadleuaeth, cymuned a rhesymau eraill, mae ein marchnadoedd da byw yn hanfodol a rhaid eu hamddiffyn. Ar y mater hwn, safaf yn y gornel las, wedi derbyn yr alwad ac yn gadarn y tu ôl i Peter Rogers, Bwystfil Bodrida, am ei fod ef yn iawn a'r Gweinidog yn anghywir.

Elin Jones: Efallai fod dau ddyn mawr yn y ddadl hon, ond mae'r ferch fach hon am gael ei munud hi hefyd.

Like Peter, I was shocked to hear the Minister's views on livestock markets in the Chamber two weeks ago. There was a reluctance on his behalf to acknowledge the importance of marts. They are economically important to farmers and to market towns. They are also of social importance in rural communities. There was a lack of understanding on the Minister's part as to the role of the mart in the store animal market, which is a crucial part of the pattern of farming in Wales. I hope that he can comment on that.

I would like the Minister to assure us today of his support for the livestock market system. I would like him to establish a fund, as I said during the debate on the budget, to revive and modernise the marts following the foot and mouth disease outbreak. The most important thing this afternoon is that he assures us that the marts will be re-opened as soon as possible.

Mick Bates: Datganaf fuddiant fel ffermwr sy'n masnachu'n rheolaidd gyda marchnadoedd da byw. Mae angen dyfarnwr

debate between the blue and red corners. We will not further the debate by increasing political rhetoric, which does not deliver any results. As a supporter of livestock markets, I am pleased that Peter has chosen this topic for his short debate. I want to discuss three critical issues that we must all face. First, the livestock market is a crucial part of trading, whether it is prime stock or store stock. According to the latest recorded figures, 3,643,000 animals were traded in livestock markets in 1998. Secondly, as has already been said, the markets are an important part of the social fabric in rural areas. Peter mentioned the letter sent to Carwyn by a local Mind association. Because of my experience, I can reinforce the point of view stated in that letter. The lack of communication and farmers' inability to meet during the foot and mouth disease crisis has led to tremendous anxiety and increased frustration. Finally, in all trading, we need choice. The livestock market provides that choice, as does the dead-weight system. We cannot abolish one or the other. We need both.

On a positive note, in a reply to Lord Geraint yesterday, Lord Whitty stated that he hopes that the livestock markets will reopen in the new year. Let the referee announce that, and the fight is over.

Alun Pugh: Point of order. A few minutes ago, Glyn Davies used the term 'cluster bombs'. The use of such an expression, given the ongoing war in Afghanistan, is a monumental lack of judgment and is also contrary to Standing Orders—

The Deputy Presiding Officer: Order. I will not tolerate that. I am grateful to Alun for trying to assist me in my duties. However, I have not heard anything that was out of order in this debate so far, and I hope that I will not hear anything in the 15 minutes that remain.

The Minister for Rural Affairs (Carwyn Jones): I am grateful to Peter for choosing

ar y ddadl 'bywyd yn y cylch arwerthu' hon rhwng y corneli glas a choch. Ni wthiwn y ddadl ymhellach drwy gynyddu'r rethreg wleidyddol, nad yw'n arwain at ganlyniadau. Fel cefnogwr marchnadoedd da byw, yr wyf yn falch bod Peter wedi dewis y pwnc hwn ar gyfer ei ddadl fer. Hoffwn drafod tri mater pwysig y mae angen inni i gyd eu hwynebu. Yn gyntaf, mae'r farchnad da byw yn rhan hanfodol o fasnach, pa un a yw hynny ar gyfer prif stoc neu stoc cadw. Yn ôl y ffigurau diweddaraf a gofnodwyd, masnachwyd 3,643,000 o anifeiliaid mewn marchnadoedd da byw yn 1998. Yn ail, fel y dywedwyd eisoes, mae'r marchnadoedd yn rhan bwysig o wead cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. Soniodd Peter am y llythyr a anfonwyd at Carwyn gan gymdeithas Mind leol. Oherwydd fy mhrofiad, gallaf atgyfnerthu'r farn yn y llythyr hwnnw. Mae'r diffyg cyfathrebu ac anallu ffermwyr gwrdd yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau wedi arwain at bryder dybryd a rhwystredigaeth gynyddol. Yn olaf, mewn unrhyw fasnach mae angen dewis arnom. Mae'r farchnad da byw yn cynnig y dewis hwnnw, fel y mae'r system pwysau marw. Ni allwn ddiddymu y naill na'r llall. Mae angen y ddwy arnom.

Ar nodyn cadarnhaol, mewn ymateb i Arglwydd Geraint ddoe, dywedodd Arglwydd Whitty ei fod yn gobeithio y bydd y marchnadoedd da byw yn ail agor yn y flwyddyn newydd. Gadewch i'r dyfarnwr gyhoeddi hynny ac yna bydd y frwydr ar ben.

Alun Pugh: Pwynt o drefn. Ychydig funudau yn ôl defnyddiodd Glyn Davies y term 'ffrwydron clwstwr'. Mae defnyddio ymadrodd o'r fath, o gofio'r rhyfel yn Afghanistan, yn arwydd aruthrol o ddiffyg crebwyll ac mae hefyd yn groes i Reolau Sefydlog—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ni oddefaf hynny. Yr wyf yn ddiolchgar i Alun am geisio fy nghynorthwyo yn fy nyletswyddau. Fodd bynnag, ni chlywais unrhyw beth a oedd allan o drefn yn y ddadl hon hyd yn hyn, a gobeithiaf na chlywaf unrhyw beth yn y 15 munud sy'n weddill.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones): Yr wyf yn ddiolchgar i

this topic as the subject of his short debate. During my speech, I will debunk a few myths, ask questions on how the system can be improved and issue a challenge and an invitation to the auctioneers to work with us to improve the future of Welsh farming.

Nobody is suggesting that the marts should be closed permanently. People who have been told that have been misled for political reasons. It is scaremongering by a party that wants to gain votes and scare people. Look at the words that I used two weeks ago. I criticised how the present system operates and explained how it should be improved. I did not say that the system should be abolished.

Let me outline the support that we give to the auctions. First, the Welsh Livestock Auctioneers' Association was offered a marketing development grant last February to set up a quality price reporting system. Is that evidence of a lack of support? Secondly, the Welsh Development Agency is considering pilot schemes on information technology updates for auctioneers in south west Wales. Again, is that evidence of a lack of support? You should do your homework first.

Everyone knows that the Assembly does not have the power to reopen the marts. We all agree that we want that power. However, we do not have it yet. We cannot vote on that. There is no vote at the end of today's debate, as Members know. It is too early to open the marts. It is too risky, because of foot and mouth disease. We have only just been given the opportunity to export sheep again. We do not want to destroy the gate that has been opened for us.

We know that marts have a role—

Elin Jones *rose*—

Carwyn Jones: I will not give way yet, Elin. People may have sent letters to me, but what questions were they asked? What stirred them up? Let me assure people that I am aware of the social aspects of the mart. Many people tell me that the company is one of the most

Peter am ddewis y pwnc hwn fel testun ei ddadl fer. Yn ystod fy araith, hoffwn chwalu ychydig o fythau, gofyn cwestiynau ar sut y gellir gwella'r system a chynnig her a gwahoddiad i'r arwerthwyr weithio gyda ni i wella dyfodol ffermio yng Nghymru.

Nid oes neb yn awgrymu y dylai'r marchnadoedd gael eu cau'n barhaol. Mae pobl sydd wedi clywed hynny wedi cael eu camarwain am resymau gwleidyddol. Codi bwganod yw hyn gan blaid sydd am ennill pleidleisiau a dychryn pobl. Edrychwch ar y geiriau a ddefnyddiais bythefnos yn ôl. Yr oeddwn yn feirniadol o'r ffordd y mae'r system bresennol yn gweithredu ac eglurais sut y dylid ei gwella. Ni ddywedais y dylai'r system gael ei diddymu.

Gadewch i mi amlinellu'r cymorth a roddwn i arwerthiannau. Yn gyntaf, cynigiwyd grant datblygu marchnata i Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru fis Chwefror diwethaf i sefydlu system adrodd prisiau ansoddol. Ai tystiolaeth o ddiffyg cefnogaeth yw hynny? Yn ail, mae Awdurdod Datblygu Cymru yn ystyried cynlluniau peilot ar ddiweddarau technoleg gwybodaeth i arwerthwyr yn ne orllewin Cymru. Eto, ai tystiolaeth o ddiffyg cefnogaeth yw hynny? Dylech wneud eich gwaith cartref yn gyntaf.

Gŵyr pawb nad oes gan y Cynulliad y grym i ailagor y marchnadoedd. Cytunwn oll ein bod yn dymuno cael y grym hwnnw. Fodd bynnag, nid yw gennym ar hyn o bryd. Ni allwn bleidleisio ar hynny. Nid oes pleidlais ar ddiwedd y ddadl heddiw, fel y gŵyr yr Aelodau. Mae'n rhy fuan i agor y marchnadoedd. Mae'n rhy beryglus, oherwydd clwy'r traed a'r genau. Dim ond newydd gael y cyfle i allforio defaid unwaith eto yr ydym. Nid ydym am ddinistrio'r glwyd sydd wedi cael ei hagog inni.

Gwyddom fod gan farchnadoedd rôl—

Elin Jones *a gododd*—

Carwyn Jones: Nid ildiaf eto, Elin. Efallai fod pobl wedi anfon llythyrau ataf, ond pa gwestiynau a ofynnwyd iddynt? Beth â'u hysgogodd? Gadewch i mi sicrhau pobl fy mod yn ymwybodol o agweddau cymdeithasol marchnadoedd. Dywed llawer

enjoyable aspects of the mart. I know of their social importance. However, it is not enough for a mart to be a social gathering. I know how important the store animal and ram sales are. Nobody is suggesting that there is a better way of selling these animals.

However, farmers are expressing concern to me. They say that they are not sure whether the system is working properly. That is what I said last week. The farmers will not say it in public, but they say it to me. We must therefore have a proper debate. How do we get a fair price for farming? This has been a passion of mine. I will not waiver from it and I will not try to run away from getting a fair price for farmers. Peter says that I do not understand. This is the man who wanted to vaccinate animals on Anglesey—first he wanted to vaccinate, then he did not, then he wanted to vaccinate and kill the animals and then he wanted to vaccinate and not kill them. In the end, he changed his mind completely. We would not be exporting now if it had been up to the Welsh Conservatives. We should not forget that. We need decisions, not the dithering that we had from the Conservatives. [CONSERVATIVE ASSEMBLY MEMBERS: ‘Oh.’] They can howl in shame about it. I understand why they feel so ashamed at their stance.

12:30 p.m.

The fundamental problem that we must overcome is that we have a small number of buyers buying from a large number of sellers. Inevitably, that leads to a market imbalance. That does not mean that we should get rid of all our systems. However, we must address the imbalance. We know that the price of lamb has dropped. However, would the markets have made a difference? They have not made a blind bit of difference to the price of Scotch beef in Scotland. It has been the same price all along. Those are the comments of the president of the National Farmers Union of Scotland. They are not my words.

There must be competition. Farmers deserve to have a choice. Mick is right; farmers

wrthylf mai'r gwmnïaeth yw un o nodweddion mwyaf pleserus marchnadoedd. Gwn am eu pwysigrwydd cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon i farchnad fod yn fan cyfarfod cymdeithasol. Gwn pa mor bwysig yw'r gwerthiannau anifeiliaid cadw a hyrddod. Nid oes neb yn awgrymu bod ffordd well o werthu'r anifeiliaid hyn.

Fodd bynnag, mae'r ffermwyr yn datgan pryderon wrthylf. Dywedant nad ydynt yn siŵr a yw'r system yn gweithio'n iawn. Dyna a ddywedais yr wythnos diwethaf. Ni ddywed y ffermwyr hyn yn gyhoeddus, ond dywedant hynny wrthylf fi. Dylem gael dadl go iawn felly. Sut y cawn bris teg am ffermio? Bu hyn yn fater agos at fy nghalon. Ni wyraf oddi wrtho ac ni fyddaf yn ceisio osgoi cael pris teg i ffermwyr. Dywed Peter nad wyf yn deall. Dyma'r dyn oedd am frechu anifeiliaid ar Ynys Môn—yn gyntaf yr oedd am frechu, yna nid oedd am frechu, ac yna yr oedd am frechu a lladd yr anifeiliaid ac yna yr oedd am frechu a pheidio â'u lladd. Yn y pen draw, newidiodd ei feddwl yn gyfan gwbl. Ni fyddem yn allforio yn awr pe bai'r cyfrifoldeb wedi bod ar ysgwyddau Ceidwadwyr Cymru. Ni ddylem anghofio hynny. Mae angen penderfyniadau arnom, nid y tîn droi a gafwyd gan y Ceidwadwyr [AELODAU CEIDWADOL Y CYNULLIAD: 'O.'] Gallant udo mewn cywilydd. Deallaf pam eu bod yn teimlo cymaint o gywilydd am eu safiad.

Y broblem sylfaenol y mae angen inni ei goresgyn yw bod gennym nifer fechan o brynwyr sy'n prynu gan nifer fawr o werthwyr. Yn anorfod, mae hyn yn arwain at anghydbwysedd yn y farchnad. Nid yw hynny yn golygu y dylem gael gwared ar bob un o'n systemau. Fodd bynnag, rhaid inni fynd i'r afael â'r anghydbwysedd. Gwyddom fod pris cig oen wedi gostwng. Fodd bynnag, a fyddai'r marchnadoedd wedi gwneud gwahaniaeth? Nid ydynt wedi gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl i bris cig eidion Albanaidd yn yr Alban. Mae wedi aros yr un pris. Dyna sylwadau Undeb Amaethwyr yr Alban. Nid fy ngeiriau i ydynt.

Rhaid cael cystadleuaeth. Mae ffermwyr yn haeddu cael dewis. Mae Mick yn iawn; dylai

should be able to choose whether they use the marts or companies such as the Welsh Meat Company or whether they sell their livestock directly. There should be choice and competition all the way through. We want to establish that. The Welsh Conservatives say that they are all in favour of the free market and competition, but that we should abolish imports, because they are unfair competition. What does that say about the free market? We did not hear that in the 1980s when coal that had been dug out by 12-year-old Columbian children was being sold in Wales. What did we hear then about cheap imports? Nothing. The Conservatives forced local authorities to buy that coal instead of local coal and other local resources. We want to ensure that local authorities are liberated so that they can buy local produce and support local farmers. The Conservatives did not do it; we will.

Nick Bourne *rose*—

Carwyn Jones: I will not give way. You have had your chance.

Glyn Davies: This is misleading.

Carwyn Jones: You have a monopoly on that. Nick could have intervened during Peter's speech if he wanted to.

I want farmers to have a choice. Where there is a problem with a system, I want it to be debated properly and resolved, not brushed under the carpet under the pretence that things are well. Otherwise, we are saying that the marts will reopen—they will reopen; that has always been said, and I hope that they will reopen in the new year—the problem is over and the price will be fine. We all know that that is not right. It is not fair that auctioneers are blamed for the price not being right. I do not want them to be blamed for that. However, based on the logical argument that Peter has put forward, they will be blamed

I want to pose some questions. I believe that farmers should have a stake in processing, a stake in the abattoirs and a stake in the food chain. Do you believe that? I believe that farmers should have a choice of outlets,

ffermwyr allu dewis pa un a ydynt am ddefnyddio marchnadoedd neu gwmnïau megis Cwmni Cig Cymru neu werthu eu da byw yn uniongyrchol. Dylid sicrhau dewis a chystadleuaeth bob cam o'r ffordd. Yr ydym am sefydlu hynny. Dywed Ceidwadwyr Cymru eu bod o blaid y farchnad rydd a chystadleuaeth, ond y dylem wahardd mewnfurion, am eu bod yn gystadleuaeth annheg. Beth ddywed hynny am y farchnad rydd? Ni chlywsom hynny yn yr 1980au pan werthwyd glo a gloddiwyd gan blant 12 oed yng Ngholumbia yng Nghymru. Beth glywsom yr adeg honno ynglŷn â mewnfurion nwyddau rhad? Dim. Gorfododd y Ceidwadwyr awdurdodau lleol i brynu'r glo hwnnw yn hytrach na glo lleol ac adnoddau lleol eraill. Yr ydym am sicrhau y caiff awdurdodau lleol ryddid i brynu cynnyrch lleol a chefnogi ffermwyr lleol. Ni wnaeth y Ceidwadwyr hynny; ond fe wnawn ni.

Nick Bourne *a gododd*—

Carwyn Jones: Nid ildiaf. Cawsoch eich cyfle.

Glyn Davies: Mae hyn yn gamarweiniol.

Carwyn Jones: Mae gennych fonopoli ar hynny. Gallai Nick fod wedi ymyrryd yn ystod araith Peter pe dymunai.

Yr wyf am i ffermwyr gael dewis. Pan fo problem gyda system, yr wyf am iddo gael ei ddadlau'n gywir a'i ddatrys, a pheidio â chael ei sgubo o dan y carped gan esgus fod popeth yn iawn. Fel arall, dywedwn y bydd y marchnadoedd yn ailagor—byddant yn ailagor; dywedwyd hynny o'r cychwyn, a gobeithiaf y byddant yn ailagor yn y flwyddyn newydd—mae'r broblem drosodd a bydd y pris yn iawn. Gwyddom oll nad yw hynny'n iawn. Nid yw'n deg bod arwerthwyr yn cael eu beio am y ffaith nad yw'r pris yn iawn. Nid wyf am iddynt gael y bai am hynny. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y ddadl resymegol a gyflwynodd Peter, byddant yn cael eu beio.

Yr wyf am ofyn rhai cwestiynau. Credaf y dylai ffermwyr gael rhan mewn prosesu, rhan yn y lladd-dai a rhan yn y gadwyn fwyd. A gredwch chi hynny? Credaf y dylai ffermwyr gael dewis o allfeydd, gan gynnwys

including livestock marts and others. Do you believe that? I believe that farmers have excellent entrepreneurial skills that should be allowed to flourish, not kept down and destroyed. Do you believe that? I believe that farmers should be allowed to rise from the bottom of the pile, not sit at the farm gate while others further up the food chain—I do not mean the auctioneers—make the money. I want to ensure that that does not happen. I want to liberate farmers to gain a slice of the market that has been denied to them for years. They have been told: ‘You people stay down there, know your place and let other people make the money.’ We must overcome that.

I issue an invitation and a challenge to the auctioneers. You have given years of service to rural areas. You have skills that no-one else has in rural areas. You have contacts in the market and the facilities that will enable yourselves and farmers to work together to ensure a better price for farmers and a better living for yourselves. Will you do that? It is no good saying that there is no need for change ever. We know that farming must adapt. We want to help farming to do that, as we have done with Farming Connect and other measures. We will do the same for you. Tradition does not mean profitability. There was once a mining and steelworking tradition in this country. That has gone. Tradition did not save it. Tradition is not enough to ensure profitability for the future. Come with us. Be a part of the farming world that is to come, not the farming world that has been. Do not listen to Peter, the ghost of farming past, when he tells you that we do not understand what needs to be done. We understand what needs to be done in terms of economics to ensure that farming plays a proper and prosperous role in Wales in the future. The door is open. Will you respond?

The Deputy Presiding Officer: That brings today’s proceedings to a close.

marchnadoedd da byw ac eraill. A gredwch chi hynny? Credaf fod gan ffermwyr sgiliau entrepreneuriaidd ardderchog ac y dylid gadael iddynt ffynnu, yn hytrach na’u sathru a’u dinistrio. A gredwch chi hynny? Credaf y dylai ffermwyr gael yr hawl i godi o waelod y domen, nid eistedd wrth glwyd y fferm tra bod eraill yn uwch ar y gadwyn fwyd—nid yr arwerthwyr yr wyf yn ei olygu—yn gwneud arian. Yr wyf am sicrhau na fydd hynny’n digwydd. Yr wyf am ryddhau ffermwyr i ennill rhan o’r farchnad nad yw wedi bod yn agored iddynt ers blynyddoedd. Dywedwyd wrthynt: ‘Arhoswch chi lle yr ydych, gwyddoch eich lle a gadewch i eraill gael yr arian.’ Rhaid inni oresgyn hynny.

Rhoddaf wahoddiad a her i’r arwerthwyr. Rhoesoch flynyddoedd o wasanaeth i ardaloedd gwledig. Mae gennych sgiliau nad oes gan neb arall mewn ardaloedd gwledig. Mae gennych gysylltiadau yn y farchnad a’r cyfleusterau a fydd yn eich galluogi chi a’r ffermwyr i gydweithio i sicrhau pris gwell i ffermwyr a bywyd gwell i chi eich hunain. A wnewch chi hynny? Mae’n ddiwerth dweud nad oes angen newid byth. Gwyddom fod yn rhaid i ffermio addasu. Yr ydym am helpu ffermio i wneud hynny, fel y gwnaethom gyda Chyswllt Ffermio a mesurau eraill. Gwnawn yr un peth i chi. Nid yw traddodiad yn golygu elw. Bu unwaith draddodiad glofaol a gweithfeydd dur yn y wlad hon. Mae hynny wedi diflannu. Ni chafodd ei arbed gan draddodiad. Nid yw traddodiad yn ddigon i sicrhau elw ar gyfer y dyfodol. Dewch gyda ni. Byddwch yn rhan o’r byd amaeth sydd i ddod, nid y byd amaeth a fu. Peidiwch â gwranddo ar Peter, ysbryd yr amaeth a fu, pan ddywed wrthyich nad ydym yn deall yr hyn sydd angen ei wneud. Deallwn yr hyn sydd angen ei wneud yn nhermau economeg i sicrhau bod amaeth yn chwarae rôl gywir a ffyniannus yng Nghymru yn y dyfodol. Mae’r drws ar agor. A wnewch chi ymateb?

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 12.40 p.m.
The session ended at 12.40 p.m.*